

Y Cyngor Nursio a Bydwreigiaeth

**Adroddiad Blynyddol a
Chyfrifon 2014–2015
a Chynllun Strategol
2015–2020**

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
2014–2015 a Chynllun Strategol 2015–2020

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014-2015 a Chynllun Strategol 2015-2020 a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50(2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Gorchynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 9 Tachwedd 2015

© Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015)

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.nmc.org.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

Print ISBN 9781474125550

Gwe ISBN 9781474125567

ID 27101507 11/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Rhagair	5
Ein rôl.....	6
Adolygiad o berfformiad 2014–2015	6
Cynllun Strategol 2015-2020	17
Adolygiad ariannol	20
Adroddiad cydnabyddiaeth	23
Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon	29
Datganiad llywodraethu blynyddol	31
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth	45
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd	47
Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015	49
Y Fantolen ar 31 Mawrth 2015.....	51
Datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015.....	52
Nodiadau i'r Cyfrifon	53
The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010.....	74

Rhagair

Roedd y flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn bwysig i'r NMC. Diolch i waith caled mewn blynyddoedd blaenorol, gwellodd ein perfformiad, atgyfnerthwyd ein henw da a bu'n bosibl i ni nodi'r hyn rydym am ei gyflawni yn y dyfodol.

Rydym yma i ddiogelu'r cyhoedd. Mae ein hadroddiad yn nodi'r nifer fawr o welliannau hanfodol rydym wedi'u gwneud eleni er mwyn cyflawni hyn.

Mae ein Cod newydd yn hyrwyddo proffesiynoldeb ac yn nodi'r hyn y mae pob un ohonom yn ei ddisgwyl gan nyrsys a bydwagedd nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Cod newydd, sy'n ffrwyth ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd, y proffesiynau a'n partneriaid a'n rhanddeiliaid niferus, wedi cael derbyniad da gan bawb. Mae'r Cod newydd yn ganolog i'n cynlluniau i gyflwyno system ail-ddilysu er mwyn sicrhau y gall nyrsys a bydwagedd barhau i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol drwy gydol eu gyrfaedd. Bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad ar y newid mawr hwn i'r ffordd rydym yn rheoleiddio ar ddiwedd 2015.

Roedd llwyddiannau mawr eraill yn cynnwys rhagori ar ein targed allweddol ar gyfer sicrhau bod achosion addasrwydd i ymarfer yn cyrraedd y cam gwrandawiaid yn gyflymach; system gofrestru ar-lein newydd sy'n ei gwneud yn haws i nyrsys a bydwagedd ymgysylltu â ni; a rheolaethau cadarnach ar ymgeiswyr rhyngwladol sydd am weithio yn y DU. Gwnaethom hefyd gomisiynu'r adolygiad sylweddol cyntaf o faes rheoleiddio bydwreigiaeth ers canrif, gan ysgogi newidiadau a ddylai ddiogelu teuluoedd yn y dyfodol.

Rydym yn falch bod yr Awdurdod Safonau Proffesiynol wedi cydnabod y gwelliannau sylweddol hyn yn ei adolygiad blynyddol o'n perfformiad, a nododd ein bod wedi cyrraedd mwy o safonau rheoleiddio da nag erioed o'r blaen.

Ochr yn ochr â hyn, cadarnhaodd adolygiad annibynnol o'n cynnydd ein bod yn canolbwyntio ar ein diben craidd, sef diogelu'r cyhoedd. Dangosodd ein bod wedi cyflawni ein haddewidion i wella yn dilyn Adolygiad Strategol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol a gynhaliwyd yn 2012. Gall pob aelod o'r cyhoedd a phob nyrs a bydwraig bellach fod yn hyderus ein bod yn rheoleiddiwr effeithiol.

Rydym yn ymrwymedig i barhau i wella popeth a wnawn. Gan adeiladu ar y llwyddiannau mawr hyn, mae'r Cyngor wedi pennu strategaeth uchelgeisiol ar gyfer y pum mlynedd nesaf: *Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid*. Mae'r strategaeth yn ein herio i sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn un blaengar, sy'n addasu i newidiadau ym maes gofal iechyd a'r galwadau ar nyrsys a bydwagedd.

Gall aelodau ein Cyngor, ein staff a phawb sy'n gweithio i ni a gyda ni deimlo'n falch iawn o'r hyn rydym wedi'i gyflawni: rydym yn ddiolchgar iawn i bob un ohonynt am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Hoffem ddiolch yn arbennig i Mark Addison, y cyn-Gadeirydd, y gwnaeth ei arweinyddiaeth gyfraniad mor sylweddol at y broses o greu'r dyfodol cadarnhaol sydd bellach yn ein hwynebu.

Y Fonesig Janet Finch
Cadeirydd, NMC
28 Hydref 2015

Jackie Smith
Prif Weithredwr a Chofrestrydd, NMC
28 Hydref 2015

Ein rôl

- 1 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth annibynnol i Gymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd ac rydym yn ceisio sicrhau bod ein holl waith yn sicrhau budd i'r cyhoedd. Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor.
- 2 Ein cyfrifoldebau rheoleiddio yw:
 - 2.1 Cadw cofrestr o bob nyrs a bydwraig sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru.
 - 2.2 Pennu safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel y gall nyrsys a bydwragedd ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaedd.
 - 2.3 Cymryd camau i ymdrin ag unigolion yr amheuir eu priodoldeb neu eu gallu i roi gofal diogel, fel y gall y cyhoedd ymddiried yn ansawdd a safonau gofal a roddir gan nyrsys a bydwragedd.
- 3 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yn goruchwyllo ein gwaith ac yn cynnal adolygiad o'n perfformiad bob blwyddyn. Mae Pwyllgor Iechyd seneddol y DU hefyd yn craffu ar ein gwaith. Mae canfyddiadau ac argymhellion y ddau yn helpu i lywio ein gwaith.

Adolygiad o berfformiad 2014–2015

- 4 Nododd ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2014-2017 dri nod.
 - 4.1 Bydd diogelu'r cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd ein gwaith yn seiliedig ar y buddiannau y gallwn eu cynnig i'r cyhoedd ac yn cael ei fesur yn eu herbyn.
 - 4.2 Bydd gennym gydb berthnasau agored ac effeithiol a fydd yn ein galluogi i weithio er budd y cyhoedd.
 - 4.3 Bydd gan ein staff y sgiliau, y wybodaeth a'r systemau ategol sydd eu hangen i'n helpu i ddarparu gwasanaethau ardderchog i'r cyhoedd a'r bobl a reoleiddir gennym.
- 5 Mae'r adran hon yn nodi'r prif gyflawniadau yn erbyn yr amcanion hyn yn ystod 2014-2015.

Nod 1 – diogelu'r cyhoedd

Cofrestru

- 6 Ar 31 Mawrth 2015, roedd 686,782 o nyrsys a bydwragedd ar y gofrestr. Gall cyflogwyr ac aelodau o'r cyhoedd gadarnhau statws cofrestriad unrhyw nyrs neu fydwaig yn y DU ar ein gwefan.
- 7 Yn 2014–2015 cafwyd a phroseswyd mwy nag 28,000 o geisiadau cychwynnol i gofrestru. O'r rhain, cafwyd 20,334 gan ymgeiswyr a hyfforddwyd yn y DU, cafwyd

7,744 gan ymgeiswyr a hyfforddwyd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a chafwyd 665 gan ymgeiswyr a hyfforddwyd y tu allan i'r AEE. Ar gyfartaledd rydym yn delio â 1,500 o alwadau i'n canolfan gyswilt bob dydd ac mae'r ffigur hwn yn cynyddu i 3,000 yn ystod adegau brig.

- 8 Ein targed oedd cwblhau 90 y cant o geisiadau i gofrestru dros y flwyddyn o fewn 90 diwrnod a chwblhawyd 86 y cant o geisiadau i gofrestru o fewn 90 diwrnod. Cwblhawyd bron yr holl geisiadau o'r DU o fewn pum diwrnod ond oherwydd cynnydd mawr yn nifer y ceisiadau o'r UE ni lwyddwyd i gyflawni'r targed cyffredinol.
- 9 Bu rhaglen i lywio gwelliannau yn ein swyddogaeth gofrestru ar waith gennym ers dwy flynedd. Yn ystod 2014-2015 gwnaethom y canlynol:
 - 9.1 Cyflwyno prawf cymhwysedd newydd ar gyfer ymgeiswyr o dramor (y tu allan i'r AEE) o 1 Hydref 2014. Mae'r broses hon yn cynnwys prawf gwybodaeth ar-lein cychwynnol a ddilynir gan asesiad ymarferol mewn canolfan brawf yn y DU. Erbyn diwedd 2014–2015, roedd 993 o ymgeiswyr wedi cael yr asesiad ar-lein cyntaf. Nid oedd yr un ymgeisydd wedi sefyll y prawf ymarferol ond roedd sawl un wedi trefnu i sefyll yr arholiad ym mis Ebrill a mis Mai 2015.
 - 9.2 Lansio NMC Online, sy'n galluogi nyrsys a bydwagedd i gyflawni amrywiaeth o dasgau cofrestru. Gall nyrsys a bydwagedd adnewyddu eu cofrestriad yn ddiogel ac yn hawdd, cadarnhau eu dyddiad adnewyddu, cwblhau'r broses gofrestru gychwynnol a chyflwyno ffurflenni hysbysu ymarfer a gallwn brosesu aildderbyniadau safonol. Ar 31 Mawrth 2015, roedd 219,291 wedi cofrestru â'r system ar-lein, sy'n cyfateb i tuag un o bob tair nyrs a bydwraig.
 - 9.3 Sefydlu systemau er mwyn galluogi nyrsys a bydwagedd i hunan-ddatgan bod ganddynt drefniadau indemnedd proffesiynol priodol ar waith, neu y bydd ganddynt drefniadau ar waith, pan fyddant yn ymarfer yn y DU. Mae hyn yn cyd-fynd â Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Trefniadau Indemnedd) 2014 a ddaeth i rym yn ystod y flwyddyn.

Safonau a chanllawiau proffesiynol

- 10 Rydym yn pennu safonau ymarfer ac addysg ar gyfer nyrsys a bydwagedd. Wrth wraidd y safonau hyn mae'r Cod – sef ein safonau ymarfer ac ymddygiad craidd ar gyfer nyrsys a bydwagedd. Yn ystod 2014–2015 gwnaethom y canlynol:
 - 10.1 Ymgynghori'n helaeth rhwng mis Mai a mis Awst 2014 ynghylch newidiadau i'r Cod gyda mewnbwn gan filoedd o nyrsys a bydwagedd, cleifion a'r cyhoedd, cyflogwr a rhanddeiliaid eraill. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad hwn drwy'r cyfryngau, ar-lein, ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy nifer fawr o ymarferion ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymrwymadau annerch. Roedd y broses hon yn cynnwys sesiynau gyda'n Grŵp Cynghori'r Cyhoedd a Chleifion a'n Grŵp Cynghori Strategol Proffesiynol.
 - 10.2 Lansio *Y Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol i nyrsys a bydwagedd* ym mis Ionawr 2015, a ddaeth yn weithredol o 31 Mawrth 2015. Strwythurir y Cod ar sail pedair thema – sef blaenoriaethu pobl,

ymarfer yn effeithiol, cynnal diogelwch a hyrwyddo proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth. Mae'n cynnwys materion megis hanfodion gofal, dyletswydd gonestrwydd, dirprwyo a chodi pryderon. Ymdriniodd hyn ag ymrwymïadau a wnaed mewn ymateb i nifer o faterion a godwyd gan adroddiad Francis a'r adroddiad ar Lwybr Gofal Lerpwl.

- 10.3 Cyhoeddi taflen i gleifion a'r cyhoedd am yr hyn y mae'r Cod yn ei olygu iddynt hwy a'r hyn y dylent ei ddisgwyl gan nyrs neu fydwaig. Cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei ddarllen o'r daflen hefyd. Enillodd y Cod a'n taflenni Nod Crisial gan Ymgyrch Plain English.
- 10.4 Cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau i nyrsys a bydwagedd ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a chodi pryderon.
- 10.5 Ymgynghori ynghylch canllawiau ar y cyd ar ddyletswydd gonestrwydd – y canllawiau ar y cyd cyntaf erioed rhwng ein dau sefydliad. Cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Mehefin 2015.

Ail-ddilysu

- 11 Yn gyffredin â rheoleiddwyr proffesiynol eraill rydym am roi mwy o sicrwydd y bydd y rhai ar ein cofrestr yn parhau i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol drwy gydol eu gyrfaedd. Ym mis Medi 2013 gwnaethom ymrwymo i ddatblygu dull ail-ddilysu ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith paratoi ar gyfer ei gyflwyno. Bwriedir i'n dull gweithredu arfaethedig fod yn gymesur ond yn effeithiol ac mae'n adeiladu ar y gofynion presennol i nyrsys a bydwagedd barhau i fod yn gofrestredig.
- 12 Mireiniwyd ein model ail-ddilysu drwy chwe mis o ymgynghori, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith ymchwil. Yn ystod 2014-2015 gwnaethom y canlynol:
 - 12.1 Cyflwyno adroddiad tystiolaeth ym mis Rhagfyr 2014 a gyfunodd bob elfen a oedd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r model gan gynnwys gwaith ymgynghori ffurfiol, adborth gan rhanddeiliaid a gwaith ymchwil.
 - 12.2 Cyhoeddi canllawiau dros dro ar ail-ddilysu er mwyn cefnogi'r gwaith o dreialu'r model mewn 19 o leoliadau mewn amrywiaeth o sefydliadau iechyd a gofal yn y GIG ledled y DU ac amrywiaeth o leoliadau eraill gan gynnwys y sector addysg, y sector annibynnol, y fyddin ac undebau.
 - 12.3 Cefnogi byrddau rhaglenni ym mhob un o bedair gwlad y DU er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth glir a chyson o'r model ail-ddilysu.
 - 12.4 Comisiynu dau werthusiad o'r cynlluniau peilot. Mae'r cyntaf yn edrych ar unigolion, gan asesu pa mor berthnasol yw'r wybodaeth a'r canllawiau, pa mor glir ac ymarferol yw'r gofynion a pha mor hawdd yw'r broses ar-lein i'w defnyddio. Mae'r ail yn edrych ar barodrwydd, yr effaith a'r gost i gyflogwyr a'r system i weithredu'r model ail-ddilysu.
- 13 Bydd canlyniadau'r gwerthusiadau yn llywio penderfyniad y Cyngor ym mis Hydref 2015 ynghylch lansio'r model ail-ddilysu ac yn ein helpu i fireinio'r polisi, y safonau a'r canllawiau cyn iddynt gael eu cymeradwyo.

Rheoleiddio bydwreigiaeth

- 14 Yn dilyn adroddiad yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr, sef *Midwifery supervision and regulation: Recommendations for change* (2013), mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Prifysgol Bae Morecambe, gwnaethom dderbyn bod diffygion strwythurol yn y system rheoleiddio bydwreigiaeth a chomisiynwyd Cronfa'r Brenin i gynnal adolygiad annibynnol ar ein rhan. Ar ôl hynny atgyfnerthodd *The Report of the Morecambe Bay Investigation* (2015) gan Dr Bill Kirkup CBE ar yr amgylchiadau trasig yn yr Ymddiriedolaeth yr angen am newid yn yr ardal hon.
- 15 Ar ôl casglu tystiolaeth ac ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, cyhoeddodd Cronfa'r Brenin ei hadroddiad ym mis Ionawr 2015. Ar ôl ystyried amrywiaeth o safbwyntiau a chyingor gan ein Pwyllgor Bydwreigiaeth, derbyniodd y Cyngor argymhelliad yr adroddiad y dylid dileu'r haen ychwanegol unigryw o waith reoleiddio o'n deddfwriaeth. Ysgrifennodd ein Cadeirydd at y Gweinidog Iechyd yn gofyn i'r llywodraeth weithredu ar yr argymhelliad hwn cyn gynted â phosibl.
- 16 Gwnaethom sylweddoli bod hwn yn benderfyniad pwysig na chât ei groesawu gan bawb, gan gynnwys llawer o fydwragedd. Fodd bynnag, roedd yn rhaid mynd i'r afael â goblygiadau sylweddol system reoleiddio a roddir ar waith y tu allan i reolaeth y rheoleiddiwr ac, o bosibl, o dan reolaeth y proffesiwn o ran diogelu'r cyhoedd.
- 17 Rydym yn cydnabod bod gwaith goruchwyllo effeithiol yn cael ei werthfawrogi'n eang ac rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'r Adran Iechyd a'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio er mwyn rhoi cymorth yn ystod y cyfnod pontio.

Safonau addysg

- 18 Mae ein safonau addysg nyrsio a bydwreigiaeth cyn cofrestru yn chwarae rôl hanfodol o ran diogelu'r cyhoedd drwy nodi'r hyn y dylai nyrsys a bydwagedd sy'n gadael hyfforddiant allu ei wneud. Yn ystod 2014-2015 gwnaethom y canlynol:
 - 18.1 Cyd-noddi, gyda Health Education England, adolygiad o addysg nyrsys a gadeiriwyd gan y Barwn Willis o Knaresborough. Cyhoeddwyd yr adolygiad, *Shape of Caring: A Review of the Future Education and Training of Registered Nurses and Care Assistants*, ym mis Mawrth 2015. Byddwn yn ystyried y 34 o argymhellion a wnaed gan yr adroddiad yn ofalus yng nghyd-destun y DU gyfan ac yn penderfynu ar ein hymateb yn ystod 2015-2016.
 - 18.2 Comisiynu gwerthusiad o'n safonau addysg nyrsio a bydwreigiaeth cyn cofrestru, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed mewn ymateb i adroddiad Francis. Mae'r gwerthusiad yn edrych ar ddwy agwedd, sef: yn gyntaf, pa mor effeithiol yw'r safonau o ran diogelu'r cyhoedd a pharatoi nyrsys a bydwagedd ar gyfer eu rolau proffesiynol; ac yn ail, cwmpas y safonau a pha mor ddealladwy a hygyrch ydynt. Cwblhawyd adroddiad interim ym mis Chwefror 2015 a disgwyli'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2015.

- 18.3 Datblygu cynllun cyflawni strategol newydd ar gyfer addysg, sy'n cyd-fynd â'n strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2015-2020. Gwnaethom hyn gyda chymorth ein Grŵp Cynghori ar Addysg a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gwrandod ledled y pedair gwlad ar y meysydd a gwmpesir yn ein cynllun.

Sicrhau ansawdd addysg ac awdurdodau goruchwyllo lleol

- 19 Gwnaethom adolygu a mireinio ein fframwaith ar gyfer sicrhau ansawdd addysg nyrso a bydwreigiaeth ac awdurdodau goruchwyllo lleol ar ôl diwedd y flwyddyn gyntaf gan ddefnyddio'r fframwaith newydd. Gwnaed nifer o ddiwygiadau a oedd yn adlewyrchu adborth gan brifysgolion ac adolygwyr lleog ac a lywiodd y gwaith o hyfforddi a datblygu adolygwyr sicrhau ansawdd hefyd.
- 20 Gwnaethom ddangos ein bod yn barod i ymateb yn rhagweithiol i bryderon ynghylch diogelwch cleifion drwy gynnal adolygiad eithriadol o awdurdod goruchwyllo lleol Guernsey. Gwnaethom ymweld â'r awdurdodaeth sawl gwaith gan weithio gydag awdurdodau'r weinyddiaeth ac awdurdodau ysbysai er mwyn cytuno ar gamau gweithredu priodol i ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau.

Addasrwydd i ymarfer

- 21 Rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol manylach ar addasrwydd i ymarfer a gyflwynir i Senedd y DU. Mae'r adroddiad yn nodi'n fanwl sut rydym wedi cyflawni ein swyddogaethau statudol yn y maes hwn. Yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi'r prif ddatblygiadau yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Yn 2014–2015 gwnaethom y canlynol:
- 21.1 Rhagori ar darged ein dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer Rhagfyr 2014 i sicrhau bod 90 y cant o achosion yn cyrraedd diwrnod cyntaf gwrandawriad o fewn chwe mis i gwblhau'r ymchwiliad. Roedd cyflawni'r targed hwn yn un o amodau grant a gafwyd gan yr Adran Iechyd yn 2012.
- 21.2 Gwneud newidiadau i'n deddfwriaeth, gan alw Archwilwyr Achos o 9 Mawrth 2015 i mewn, cyflwyno pŵer newydd i adolygu penderfyniadau "dim achos i'w ateb" a galluogi gwneud gorchmynion dileu mewn achosion iechyd a diffyg cymhwysedd.
- 21.3 Rhoi model ymchwilio newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniad a risg ar waith. Roedd hyn yn cynnwys rhoi arbenigedd yn y "pen blaen", gan sefydlu tîm cyfreithiol â llawer o sgiliau a thîm ymchwilio uchel ei broffil, newid yr asesiad cychwynnol o atgyfeiriadau er mwyn canolbwyntio ar ganlyniadau tebygol a gweithio i gynnwys aelodau cofrestredig ar gam cynnar yn y broses.
- 21.4 Gwella'r modd y rheolir yr achosion addasrwydd i ymarfer hynny y gellir eu datrys heb fod angen cynnal gwrandawriad cyhoeddus llawn. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau i'r prosesau ar gyfer tynnu enw oddi ar y gofrestr o wirfodd a phenderfyniad panel drwy gytundeb ynghyd â chyhoeddi rhagor o ganllawiau a hyfforddiant.
- 21.5 Symud y rhan fwyaf o'n gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwrandawriadau i gyfleusterau newydd yn Stratford, a agorodd ym mis Tachwedd 2014 ar

amser ac o fewn y gyllideb a heb unrhyw effaith negyddol amlwg ar gynhyrchiant.

- 21.6 Gweithredu amrywiaeth o welliannau i'n gwasanaeth cwsmeriaid yn seiliedig ar adborth. Er enghraifft, gwnaethom adolygu a diweddarau ein safonau gwasanaeth cwsmeriaid, gan greu tîm cymorth tystion newydd i weithio gyda thystion cyn ac ar ôl iddynt fynychu gwrandawiadau, a chyflwyno cyfleusterau newydd er mwyn gwella profiad tystion sy'n dod i'n canolfannau gwrandawiadau.

Nod 2 – cydberthnasau agored ac effeithiol

Cydberthnasau strategol

- 22 Yn ein strategaeth rydym wedi cydnabod ein bod yn gweithredu fel rhan o system ehangach o reoleiddwyr a chyrrff eraill sy'n gyfrifol am oruchwylio ansawdd a diogelwch mewn lleoliadau iechyd a gofal. Rydym wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n rhanddeiliaid am y cynnydd a'r gwelliannau rydym yn parhau i'w gwneud. Mae hyn wedi cynnwys cyhoeddi ein cynllun corfforaethol, ei rannu â rhanddeiliaid a chraffu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r cynllun mewn sesiynau cyhoeddus o gyfarfodydd y Cyngor. Yn 2014–2015 gwnaethom y canlynol:
- 22.1 Cyfarfod yn rheolaidd â rhanddeiliaid a gwleidyddion ledled gwledydd y DU er mwyn llywio ein dealltwriaeth a'n gweithgarwch ymgysylltu ar lefel y DU gyfan.
- 22.2 Atgyfnerthu ein dull o ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd ledled y pedair gwlad. Sefydlwyd Grŵp Cyngori Cleifion a'r Cyhoedd i'r Alban, sydd wedi cyfarfod yng Nglasgow a Chaeredin, a phennwyd cwmpas gwaith ar gyfer presenoldeb priodol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.
- 22.3 Datblygu gwefan newydd, sydd wedi'i hailgynllunio ac sy'n cynnwys gwybodaeth wedi'i diweddarau, er mwyn diwallu anghenion y cyhoedd, cleifion, nyrsys a bydwagedd, myfyrwyr ac addysgwyr, a chyflogwyr yn well.
- 22.4 Atgyfnerthu dealltwriaeth y cyhoedd o'n rôl a'n swyddogaethau. Er enghraifft, ail-lansiwyd ein tudalen ar Facebook er mwyn canolbwyntio ar y Cod.
- 22.5 Ehangu ein gweithgarwch ymgysylltu ar Twitter drwy sgysiau a pharhau i fonitro'r sylw a roddir i'r NMC yn y wasg.
- 22.6 Sefydlu ein Grŵp Cyngori Strategol Proffesiynol sy'n dod ag uwch nyrsys a bydwagedd o amrywiaeth o leoliadau ymarfer ledled y DU at ei gilydd. Mae'r Grŵp hwn wedi cyfarfod bedair gwaith a chwaraeodd ran bwysig yn y gwaith o lywio ymgyrch y Cod, gan hyrwyddo'r Cod yn eu lleoliadau lleol.
- 23 Mae ein Prif Weithredwr a Chofrestrydd wedi ymweld â nifer o leoliadau iechyd a gofal ac wedi treulio amser gydag uwch nyrsys a bydwagedd er mwyn deall eu hamgylchedd ymarfer a'u barn ar ein gohebiaeth yn well.

Cyfranogi yn yr amgylchedd iechyd ehangach

- 24 Mae ein strategaeth yn seiliedig ar yr angen i ymgysylltu'n effeithiol fel rhan o system rheoleiddio a dylanwadu ehangach. Rydym yn gweithio gyda nifer o gyrff partner er mwyn gweithredu neu ddiweddarau memoranda cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi sut rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn diogelu'r cyhoedd, yn arbennig drwy rannu gwybodaeth. Mae hyn wedi cynnwys cwblhau memoranda cyd-ddealltwriaeth neu brotocolau gweithredol â'r canlynol:
- 24.1 yr Awdurdod Datblygu Ymddiriedolaethau;
 - 24.2 y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
 - 24.3 NHS Education Scotland;
 - 24.4 Cyngor Gofal Cymru;
 - 24.5 Health Education England;
 - 24.6 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
 - 24.7 Y Comisiwn Ansawdd Gofal.
- 25 Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill ar faterion polisi Ewropeaidd drwy Gynghrair Rheoleiddwyr y DU ar Ewrop ac wedi cyflwyno nifer o ymatebion cydgysylltiedig i'r Comisiwn Ewropeaidd ar faterion o ddiddordeb cyffredin.
- 26 Yn ystod 2014-2015 gwnaethom y canlynol:
- 26.1 Cyhoeddi datganiad sefyllfa ar staffio diogel mewn ymateb i faterion a godwyd gan uwch nyrsys a bydwagedd. Roedd yn adlewyrchu'r ffaith, er nad ein rôl ni yw pennu na sicrhau safonau sy'n ymwneud â staffio priodol, ei fod yn fater sy'n effeithio ar yr hyn a wnawn mewn sawl ffordd.
 - 26.2 Cyhoeddi datganiad ar ddyletswydd broffesiynol gonestrwydd ar y cyd ag wyth o'r rheoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol ac ymgynghori â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ynghylch canllawiau i nyrsys, bydwagedd a meddygon.
 - 26.3 Ymddangos gerbron Pwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin fel rhan o'i ymchwiliad i faes codi pryderon a chwyno.
 - 26.4 Ymddangos gerbron Ymchwiliad Bae Morecambe.
 - 26.5 Cyflwyno adroddiad ar ein hymrwymadau cyhoeddus mewn ymateb i adolygiad Francis ac adolygiadau cysylltiedig.
 - 26.6 Cyfrannu at waith y llywodraeth i atgyfnerthu prosesau ar gyfer cofnodi achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod.
 - 26.7 Ymateb i'r adolygiad 'Freedom to Speak Up', a arweiniwyd gan Syr Robert Francis a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, a oedd yn ymwneud â chwythu'r chwiban.

26.8 Dechrau datblygu gwasanaeth cyswllt cyflogwyr i gydgysylltu â chyflogwyr a rhoi cyngor iddynt, yn enwedig ar faterion addasrwydd i ymarfer. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn deall beth y gallai hyn ei olygu a'r manteision a allai ddeillio ohono.

Newidiadau i'n deddfwriaeth

- 27 Mae ein deddfwriaeth wedi dyddio ac mae angen ei diwygio fel mater o frys. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweithio gyda'r Adran Iechyd a rheoleiddwyr eraill er mwyn llywio ymateb y llywodraeth i adroddiad a Bil drafft Comisiwn y Gyfraith, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015. Gwnaethom ddatblygu ein hachos dros newid deddfwriaethol a chyhoeddi datganiad sefyllfa, sef *Better legislation for better regulation*. Cyhoeddwyd datganiad ar y cyd â grwpiau cleifion, cyrff proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth, undebau a chynrychiolwyr systemau ac addysg a alwodd ar arweinwyr gwleidyddol i ymrwymo i gyflwyno bil i ddiwygio maes rheoleiddio gofal iechyd.
- 28 Gwyddom bellach nad oedd y diwygiadau sylfaenol a ddymunwyd yn Araith y Frenhines ar gyfer y sesiwn gyntaf. Roedd hyn yn siomedig a byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraeth er mwyn ei hannog i fynd i'r afael â'r mater hwn ar frys.
- 29 Buom yn gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a seneddwyr ar Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2014 a roddodd i ni y gallu deddfwriaethol i gyflwyno Archwilwyr Achos a gwneud gwelliannau i brosesau eraill. Effeithiodd nifer o ddatblygiadau deddfwriaethol eraill ar ein gwaith, yn enwedig y newidiadau deddfwriaethol o gyfarwydddeb ddiwygiedig yr UE ar gydnabod cymwysterau proffesiynol ein gilydd a oedd yn cynnwys pwerau i gyflwyno rheolaethau iaith ar gyfer nyrsys a bydwragedd a hyfforddwyd yn yr UE.

Gwella'r broses o gasglu a defnyddio data a gwybodaeth a'u rhannu ag eraill

- 30 Rydym yn glir ynghylch pwysigrwydd gwella'r broses o gasglu a defnyddio ein data ein hunain a gwybodaeth o ffynonellau eraill, a rhannu'r hyn a wyddom â rheoleiddwyr eraill a sefydliadau partner perthnasol er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd.
- 31 Ni wnaethom y cynnydd roeddem wedi gobeithio ei wneud eleni o ran ein gwaith ym maes data a gwybodaeth am nifer o resymau. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i bwysau ar adnoddau a gofynion blaenoriaethau eraill – yn arbennig y momentwm cynyddol yn y broses o wella ein systemau technoleg gwybodaeth.
- 32 Fodd bynnag, rydym wedi gwneud cynnydd cynnar drwy gynnwll Grŵp Llywio Data mewnol i oruchwylio ein holl waith yn y maes hwn, penodi rheolwr data i arwain y gwaith o gwmpasu'r hyn sydd ei angen i'n symud ymlaen, sefydlu Awdurdod Dylunio Technoleg fel rhan o'r rhaglen gwella TGCh a chynnull grŵp gwybodaeth data sy'n gysylltiedig â'r prosiect cyswllt cyflogwyr er mwyn rhoi darlun o ddata lleoliadau sy'n cwmpasu'r sefydliad cyfan.

Nod 3 – gwasanaethau, systemau a staff

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

- 33 Ein nod yw hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gyflawni ein swyddogaethau a chyflwyno ein gwasanaethau fel rheoleiddiwr ac fel cyflogwr.
- 34 Roedd gan ein cynllun gweithredu amcanion cydraddoldeb blynyddol bum amcan allweddol yn 2014-2015:
 - 34.1 Byddwn yn cynnwys amrywiaeth ymhellach wrth gyflawni ein swyddogaethau statudol.
 - 34.2 Bydd ein harweinwyr yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
 - 34.3 Byddwn yn rhoi prosesau llywodraethu effeithiol ar waith i ategu'r gwaith o sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant.
 - 34.4 Bydd ein staff yn gweithio mewn amgylchedd lle cânt eu trin ag urddas, tegwch a pharch.
 - 34.5 Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd sy'n berthnasol i anghenion cymuned amrywiol.
- 35 Mae ein strategaeth gorfforaethol yn integreiddio ymrwymadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob thema strategol â blaenoriaeth. Rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn monitro cynnydd yn rheolaidd yn erbyn ein cynllun gweithredu amcanion cydraddoldeb. Yn ystod 2014-2015 gwnaethom y canlynol:
 - 35.1 Diwygio ein holiadur amrywiaeth, sydd wedi'i ymgorffori yn NMC Online ac a fydd yn rhoi data gwell am ein poblogaeth aelodau cofrestredig.
 - 35.2 Ystyried a dadansoddi'r goblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddatblygu polisiau a gweithdrefnau.
 - 35.3 Gweithio mewn partneriaeth â'r Fforwm Anabledd i Fusnesau er mwyn datblygu polisi addasiadau rhesymol newydd. Bydd y polisi hwn yn gwella ansawdd addasiadau rhesymol ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaethau ag anableddau. Rydym wrthi'n cwmpasu cynllun prosiect er mwyn ystyried costau a'r broses o'i roi ar waith.
 - 35.4 Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth gorfodol fel rhan o'r broses sefydlu staff. Diwygiwyd mewnwyd y staff hefyd er mwyn atgoffa a hysbysu staff am ein dyletswyddau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r polisiau sydd ar waith gennym er mwyn hyrwyddo amgylchedd gwaith cynhwysol.
 - 35.5 Datblygu cydberthnasau ag unigolion sy'n arbenigo yn y materion a wynebwr gan bobl â nodweddion gwarchoddedig a sawl partneriaeth waith ag arbenigwyr a sefydliadau amrywiaeth allanol er mwyn llywio ein gwaith.

- 35.5.1 Buom yn gweithio gyda'r Gymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth o ran Rhywedd ar bolisi trawsrywedd.
- 35.5.2 Gwnaethom ymuno â'r Race for Opportunity er mwyn defnyddio ei harbenigedd ar faterion sy'n effeithio ar aelodau o staff o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- 35.5.3 Buom yn gweithio gyda Stonewall ar feithrin dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol.
- 35.5.4 Buom yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar safonau'r Gymraeg.
- 35.5.5 Buom yn gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol drwy ei gyfarfodydd rheoleiddiwr ar rannu arfer gorau.

- 36 Rydym wedi gwella ein prosesau llywodraethu er mwyn helpu i sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant gan gynnwys sicrhau bod cyfarwyddwr gweithredol yn cadeirio'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Technoleg gwybodaeth a diogelwch

- 37 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhoi rhaglen fawr ar waith i wella ein trefniadau technoleg gwybodaeth, diogelwch a llywodraethu.
- 38 Rydym wedi datblygu rhaglen o welliannau sylweddol ar gyfer ein gwasanaeth, ein prosesau a'n rheolaethau TG yn dilyn cyfres o adolygiadau annibynnol. Penodwyd arweinwyr dros dro newydd i gyflawni'r rhaglen honno ac mae'r Cyngor yn craffu'n ofalus ar waith yn y maes hwn.
- 39 Rydym wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion â blaenoriaeth uchel yn unol â fframwaith ISO 27001 ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth. Rydym wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun gwella diogelwch gwybodaeth ac adolygir ein cynnydd yn y maes hwn ar lefel uwch drwy ein Bwrdd Llywodraethu a Diogelwch Gwybodaeth. Rydym hefyd yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill drwy rannu arfer gorau.

Rhyddid gwybodaeth a diogelu data

- 40 Fel corff cyhoeddus rydym yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Yn 2014–2015 cafwyd tua 400 o geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a mwy na 300 o geisiadau o dan y Ddeddf Diogelu Data ac ymatebwyd i bob un o'r ceisiadau hynny. Gwnaed pedair cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth dros y cyfnod hwn a dyfarnwyd o'n plaid yn achos pob un o'r cwynion hynny.

Staff ac adnoddau dynol

- 41 Rydym yn parhau i feithrin diwylliant agored a fydd yn ymgysylltu a grymuso staff i berfformio hyd eithaf eu gallu ac a fydd yn annog dysgu a gwella.

Cynllunio'r gweithlu

- 42 Gostyngodd cyfradd trosiant staff am yr ail flwyddyn yn olynol i 24.5 y cant er ei bod yn uwch na tharged ein dangosyddion perfformiad allweddol, sef 23 y cant. O'r unigolion hynny sy'n rhoi rheswm dros adael, mae'r rhan fwyaf yn nodi eu bod am ddatblygu eu gyrfa neu newid gyrfa.
- 43 Rydym wedi gweithio tuag at roi trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer cynllunio'r gweithlu, gan ddechrau drwy wella ansawdd adroddiadau ar y gweithlu a rhoi gwell gwybodaeth am y gweithlu a gwybodaeth amser real i reolwyr. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y swyddogaeth Adnoddau Dynol a'r cyfarwyddiaethau er mwyn trafod anghenion a sgiliau'r gweithlu sy'n llywio gweithgarwch cynllunio busnes. Rydym wedi gwella ein systemau TGCh ac Adnoddau Dynol sy'n golygu bod gennym ddata mwy cynhwysfawr am gyfansoddiad ein gweithlu.
- 44 Gwnaethom sicrhau bod sgiliau ac ymddygiadau ein gweithlu yn cyd-fynd yn agos â'n strategaeth gorfforaethol drwy sicrhau bod cynlluniau busnes yn ystyried gallu a sgiliau'r gweithlu.

Arfarnu a datblygu staff

- 45 Cyflwynwyd system arfarnu perfformiad ar-lein gyda mewnbwn y staff. Mae hyn yn cynnwys myfyrio ar ymddygiadau'r NMC ac yn galluogi rheolwyr i lunio gwell adroddiadau a monitro cydymffurfiaeth yn well.
- 46 Gwnaethom ddechrau gwaith ar ddatblygu llwybrau dilyniant gyrfa a system wobrau ymhellach ac rydym wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ein cystadleurwydd a'n sefyllfa yn y farchnad. Mae ein rhaglenni dysgu a datblygu yn gwella sgiliau megis rheoli perfformiad.

Diwylliant staff

- 47 Parhawyd i feithrin diwylliant o fod yn agored fel y gall staff deimlo eu bod yn gallu codi pryderon er mwyn i'r sefydliad ddysgu o gamgymeriadau. Gwnaethom ymuno ag Ymgyrch First 100 Public Concern at Work (PCaW), sef menter y bwriedir iddi helpu pobl sy'n codi pryderon. Gallwn sicrhau staff yr NMC ein bod yn ymrwymedig i ymdrin â phryderon ac achosion o chwythu'r chwiban yn unol â chod ymarfer PCaW.
- 48 Dengys gwybodaeth Adnoddau Dynol fod staff yn teimlo'n fwyfwy y gallant godi pryderon, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, drwy ein prosesau Adnoddau Dynol.
- 49 Cynhaliwyd arolwg ar gyfer pob aelod o'n staff ym mis Mehefin 2014 a ddangosodd fod lefelau boddhad ac ymgysylltu staff wedi cynyddu o 57 y cant i 64 y cant. Cafodd y canlyniadau eu bwydo'n ôl i'r sefydliad a datblygwyd cynlluniau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau.

Cynllun Strategol 2015-2020

50 Cytunodd ein Cyngor ar ein *Strategaeth 2015–2020: Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid* ym mis Mawrth 2015 a gellir ei gweld ar [ein gwefan](#). Mae'n nodi pedair blaenoriaeth strategol o ran datblygu a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein diben cyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd yn fwy effeithiol gan sicrhau ein bod yn cael mwy o effaith, sef:

- Rheoleiddio effeithiol
- Defnyddio gwybodaeth
- Cydweithredu a chyfathrebu
- Sefydliad effeithiol

51 Y gweithgareddau a nodir isod yw'r prif ddarnau o waith y byddwn yn ymgymryd â hwy yn 2015-2016 er mwyn sicrhau gwelliannau a fydd yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2015-2020.

Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol

Mae'n rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau rheoliadol statudol craidd yn gyson dda er mwyn diogelu'r cyhoedd ac ennyn hyder y cyhoedd. Byddwn yn parhau i wella ein swyddogaethau craidd, gan ganolbwyntio ar gyflymder, gwasanaeth cwsmeriaid ac ansawdd ein penderfyniadau. At hynny, bydd angen i ni ymateb i ofynion newydd a newid deddfwriaethol.

Yn 2015–2016 byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth â phedair llywodraeth y DU er mwyn lansio model ail-ddilysu effeithiol, tryloyw a chymesur ar ddiwedd 2015.
- Gwneud y newidiadau angenrheidiol i'n prosesau er mwyn gweithredu gofynion newydd Gyfarwyddeb yr UE ar Gydabod Cymwysterau Proffesiynol ein Gilydd. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno rheolaethau iaith.
- Ymgorffori a gwerthuso'r swyddogaeth archwilwyr achos newydd, rhoi'r pwerau newydd i adolygu penderfyniadau 'dim achos i'w ateb' ar waith a buddsoddi yn y gwaith o atgyfnerthu ein swyddogaethau sgrinio ac ymchwilio er mwyn sicrhau penderfyniadau rheoliadol o ansawdd cyson ym mhob un o'n prosesau addaswydd i ymarfer.
- Sefydlu gwasanaeth cyswllt cyflogwyr sy'n hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth, sy'n gwella dealltwriaeth o'n prosesau ac sy'n helpu cyflogwyr i benderfynu pa bryderon ynghylch addaswydd i ymarfer a ddylai gael eu hatgyfeirio atom a pha rai y dylid ymdrin â hwy yn lleol.
- Datblygu'r safbwyntiau polisi angenrheidiol ar gyfer agweddau penodol ar y gofrestr er mwyn paratoi ar gyfer bil rheoleiddio posibl. Byddwn yn gwneud gwaith cwmpasu a gwaith ymchwil cychwynnol ar gyfer adolygiad tymor hwy o rôl, strwythur a

chynnwys y gofrestr er mwyn sicrhau ei bod yn helpu i ddiogelu'r cyhoedd mewn tirwedd gofal iechyd ac ymarfer sy'n newid.

- Cyhoeddi cynllun cyflawni strategol ar gyfer addysg a dechrau ei roi ar waith. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau'r gwaith o werthuso ein safonau addysg cyn cofrestru, cyhoeddi safonau rhagnodi newydd sy'n addas at y diben a diwygio ein safonau bydwreigiaeth cyn cofrestru er mwyn eu cyhoeddi yn 2016.
- Gwneud gwaith datblygu polisi a deddfwriaeth tuag at ddileu goruchwyliaeth bydwreigiaeth o'n deddfwriaeth.
- Cyflawni rhaglen o adolygiadau rheoli ansawdd ym mhob un o'n cyfarwyddiaethau rheoliadol. Caiff amcanion ansawdd eu hymgorffori mewn amcanion staff a byddwn yn adolygu effaith gyffredinol ein rhaglen ansawdd ar ddechrau 2016.

Blaenoriaeth strategol 2: Defnyddio gwybodaeth

Drwy ddefnyddio tystiolaeth o ddata a gwaith ymchwil yn well byddwn yn meithrin dealltwriaeth o'r hyn a wnawn, gan ein helpu i fod yn fwy effeithiol, tryloyw a chymesur. Fel cam cyntaf, mae angen i ni sicrhau bod ein systemau yn helpu i wella'r broses o gasglu a defnyddio ein data ein hunain a gwybodaeth o ffynonellau eraill.

Yn 2015–2016 byddwn yn gwneud y canlynol:

- Atgyfnerthu ein dull o reoli gwybodaeth am risg reoliadol sy'n ymwneud â lleoliadau lle mae nyrsys a bydwagedd yn ymarfer. Byddwn yn gwneud hyn drwy sefydlu systemau a phrosesau newydd ochr yn ochr â'r gwasanaeth cyswllt cyflogwyr ar gyfer coladu a gwerthuso gwybodaeth am risg o ffynonellau gwahanol a gweithredu arni.
- Cyflawni rhaglen o weithgareddau ymchwil a dadansoddi sy'n meithrin dealltwriaeth o weithgarwch rheoleiddio effeithiol – er enghraifft gwaith i wella gwybodaeth o ddata ymarfer.

Blaenoriaeth strategol 3: Cydweithredu a chyfathrebu

Byddwn yn parhau i wella ansawdd ein cydberthnasau er mwyn helpu i gyflawni ein diben cyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd. Er mwyn helpu i wneud hyn byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cyffredinol. Bydd ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a chyflogwyr yn flaenoriaeth. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni nodau cyffredin.

Yn 2015–2016 byddwn yn gwneud y canlynol:

- Hyrwyddo'r Cod drwy ymgyrch barhaus wedi'i hanelu at nyrsys, bydwagedd a chyflogwyr. Byddwn yn llunio ac yn lledaenu deunyddiau ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaethau fel eu bod yn deall yr hyn y dylent ei ddisgwyl gan nyrsys a bydwagedd.
- Datblygu a chyhoeddi adnoddau i gyflogwyr ar oblygiadau a chyfrifoldebau cyflogi nyrsys a bydwagedd cofrestredig.

- Ymgysylltu'n effeithiol â nyrsys a bydwagedd cofrestredig a'n rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y rhoddir y model ail-ddilysu ar waith yn ddidrafferth.
- Sefydlu fforwm myfyrwyr a chynnal arolwg myfyrwyr er mwyn atgyfnerthu ein cydberthnasau ag aelodau cofrestredig yn y dyfodol a dysgu o'r hyn y gallant ei ddweud wrthym am addysg ac ymarfer proffesiynol.
- Datblygu cydberthnasau cadarn â rheoleiddwyr eraill – gan gynnwys rheoleiddwyr systemau, a hyfforddi ein staff i roi protocolau rhannu gwybodaeth ar waith yn gyson ac yn dda. Byddwn yn lansio canllawiau ar onestrwydd ar y cyd â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Blaenoriaeth strategol 4: Sefydliad effeithiol

Byddwn yn datblygu ein systemau, ein hadnoddau a'n diwylliant ymhellach er mwyn ein helpu i ddatblygu'n rheoleiddiwr deallus, cydweithredol a blaengar.

Yn 2015–2016 byddwn yn gwneud y canlynol:

- Canolbwyntio'n fwy ar ddarparu gwasanaeth i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid drwy fabwysiadu safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid ® Swyddfa'r Cabinet ym mhob rhan o'r sefydliad. Byddwn yn comisiynu rhaglen hyfforddi staff ac asesiad cychwynnol ym mis Gorffennaf 2015, cyn datblygu cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.
- Rhoi rhaglen gwella TGCh ar waith er mwyn cefnogi ein swyddogaethau craidd yn fwy effeithlon a darparu sail gadarn ar gyfer gwneud rhagor o newidiadau gweddnewidiol.
- Asesu a mapio ein data a dechrau rhaglen glanhau data fel gwaith paratoi hanfodol ar gyfer casglu, cofnodi a lledaenu data a gwybodaeth yn y dyfodol.
- hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gyflawni ein swyddogaethau fel rheoleiddiwr, darparwr gwasanaeth a chyflogwr. Bydd hyn yn cynnwys gwella'r broses o gasglu a defnyddio data am ein haelodau cofrestredig, comisiynu gwaith ymchwil a sicrhau y gall pobl ag anabledau barhau i allu cael gafael ar ein gwasanaethau.
- Darparu cyfleuster i nyrsys a bydwagedd dalu ffioedd cofrestru mewn rhandaliadau.
- Buddsoddi yn ein gweithlu er mwyn sicrhau ei fod yn ymgysylltu ac yn perfformio'n dda ac y gall ddiwallu anghenion y sefydliad yn y dyfodol. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddiwygio'r system gyflogau yn raddol, cynnal adolygiad o strwythur ein gweithlu a rhoi rhaglen dysgu a datblygu ar waith.
- Cyflwyno rhaglen o arbedion effeithlonrwydd er mwyn sicrhau y parheir i wneud defnydd effeithiol o'n hadnoddau.

Adolygiad ariannol

- 52 3.212 Roedd yr adnoddau net sy'n mynd allan ar gyfer y flwyddyn yn gwneud cyfanswm o £3.212 miliwn (2013–2014: adnoddau net allan £5.397 miliwn).
- 53 Yn ystod y flwyddyn, cafwyd incwm o £73.204 miliwn (2013–2014: £65.193 miliwn) a oedd yn cynnwys incwm ffioedd gwerth £69.921 miliwn (2013–2014: £62.772 miliwn), grant o £2.642 miliwn gan yr Adran Iechyd (2013–2014: incwm grantiau gwerth £1.438 miliwn) ac incwm buddsoddiadau gwerth £0.641 miliwn (2013–2014: £0.983 miliwn).
- 54 Mae'r incwm grantiau gwerth £2.642 miliwn yn cynrychioli arian gan yr Adran Iechyd i gefnogi gwelliannau i'r ffordd rydym yn asesu ac yn prosesu ceisiadau i ymuno â'r gofrestr o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Rhoddodd yr Adran Iechyd arian grant gwerth £0.193 miliwn fel y tranche olaf i gefnogi archwiliad hanesyddol o gofrestrïadau o'r tu allan i'r AEE a'r broses o gyflwyno system electronig i ddilysu manylion personol ymgeiswyr o'r tu allan i'r AEE. Rhoddwyd arian grant gwerth £2.449 er mwyn helpu i gyflwyno prawf cymhwysedd ar gyfer ymgeiswyr o'r tu allan i'r AEE. Ceir rhagor o wybodaeth am arian grant a gwariant yn nodyn 27 i'r cyfrifon.
- 55 Darparodd grant o £20 miliwn gan yr Adran Iechyd a dalwyd yn 2012–2013 adnoddau ariannol ychwanegol er mwyn helpu i gyflawni targed ein dangosydd perfformiad allweddol o ran dyfarnu Addasrwydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014; clirio'r ôl-groniad hanesyddol o achosion erbyn mis Rhagfyr 2014; a chyrraedd y lefel ofynnol o gronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg erbyn mis Ionawr 2016. Talwyd y grant ym mis Ionawr 2013 a chafodd ei gydnabod yn llawn fel referniw cyfyngedig yn 2012-2013. Caiff y grant ei ryddhau mewn rhandaliadau misol cyfartal dros gyfnod y grant, a bydd balans y cronfeydd cyfyngedig wrth gefn yn lleihau'n unol â hynny bob mis, gyda'r swm terfynol yn cael ei ryddhau ym mis Rhagfyr 2015.
- 56 Llwyddwyd i gyflawni targed y dangosydd perfformiad allweddol o ran dyfarnu Addasrwydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014 a chliriwyd yr ôl-groniad hanesyddol o achosion, gan fodloni'r amodau hyn a fu ynghlwm wrth y grant.
- 57 Erbyn chwarter olaf 2014-2015 roedd yr NMC wedi cyflawni ei darged ar gyfer y lefel ofynnol o gronfa wrth gefn sydd ar gael yn rhydd, sef £10 miliwn, a disgwylir i'r lefel hon fod yn gynaliadwy, yn seiliedig ar ddefnyddio tranche olaf y grant o £20 miliwn yn ystod 2015-2016.
- 58 Yn ystod y flwyddyn gwariwyd cyfanswm o £76.416 miliwn (2013–2014: £70.590 miliwn). Dadansoddir hyn ymhellach yn nodyn 10 i'r cyfrifon.
- 59 Mae'r cronfeydd wrth gefn gwerth £49.656 miliwn ar 31 Mawrth 2015 yn cynnwys gwerth prydles swyddfeydd yr NMC yn 23 Portland Place, sy'n cynnwys cymal defnydd cyfyngedig. Ailbrisiwyd y brydles ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol ac roedd yn werth £17.185 miliwn.
- 60 Caiff ein gwariant ei lywio'n bennaf gan faint a chymhlethdod ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhain wedi cynyddu'n sylweddol. Felly, ym mis Mawrth 2014, penderfynodd y Cyngor gynnal

ymgyngoriad cyhoeddus ar y cynnig i gynyddu'r ffi gofrestru o £100 i £120 ac ar ôl hynny gwnaeth y penderfyniad anodd yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2014 i gynyddu'r ffi yn weithredol o ddechrau Chwefror 2015.

- 61 Caiff lefel y ffi gofrestru ei hadolygu bob blwyddyn gan y Cyngor. Mae nifer a chymhlethdod yr achosion addaswydd i ymarfer a atgyfeirir wedi parhau i gynyddu, ynghyd â'r angen i fuddsoddi yn ein hymrwymiaid rheoleiddio eraill. Mae hyn yn golygu, er gwaethaf gwelliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ac arbedion a wnaed gennym, a heb unrhyw siawns uniongyrchol o newid deddfwriaethol, mai cost rheoleiddio yw £120 fesul aelod cofrestredig o hyd.
- 62 Deallwn y caledi sylweddol y mae nyrsys a bydwagedd yn ei wynebu wrth wneud cyfandaliad yn y cyfnod economaidd anodd hwn. Rydym wedi gwrandao ar nyrsys, bydwagedd a'u cyrff proffesiynol, ynghyd â'r Pwyllgor Iechyd, ac rydym wedi ymrwymo i gyflwyno'r gallu i dalu'r ffi gofrestru mewn rhandaliadau erbyn dechrau 2016 er mwyn ei gwneud yn haws i nyrsys a bydwagedd dalu'r ffi. Yn ystod 2014–2015 gwnaethom ymgynghori ynghylch y newidiadau angenrheidiol i'n rheolau a'u sicrhau. Rydym yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'n system a'n prosesau TG. Rydym hefyd yn parhau i annog nyrsys a bydwagedd i hawlio'r rhyddhad treth ar y ffi gofrestru y mae ganddynt yr hawl i'w gael, gan mai dim ond 30 y cant ohonynt sy'n gwneud hynny ar hyn o bryd.
- 63 Ar 31 Mawrth 2015 mae cyd-drafodaethau â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r posibilrwydd o ad-dalu treth incwm a thaliadau Yswiriant Gwladol a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol mewn perthynas â phanelwyr addaswydd i ymarfer. Roedd hyn yn dilyn dyfarniad gan CThEM ym mis Ebrill 2012 fod CThEM bellach yn ystyried nad yw panelwyr addaswydd i ymarfer yr NMC yn ddeiliaid swydd ac felly'n gyflogeion at ddibenion treth incwm ac Yswiriant Gwladol, ond ei fod yn ystyried eu bod yn hunangyflogedig. Nid yw swm yr ad-daliad posibl wedi'i gadarnhau eto ac felly nid yw wedi'i ddatgelu fel ased wrth gefn yn y datganiadau ariannol.

Polisi cronfeydd wrth gefn

- 64 Mae'r NMC yn gweithredu polisi cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg, sy'n darparu y dylai lefel ein cronfeydd rhydd wrth gefn fod yn seiliedig ar asesiad o effaith ariannol y risgiau a wynebir gan yr NMC, ynghyd â swm i gwmpasu ein cyfran amcangyfrifedig o'r diffyg pensiwn. Cronfeydd rhydd wrth gefn yw'r rhan honno o gronfeydd digyfngiad elusen sydd ar gael i'w gwario'n rhydd, hynny yw, heb gynnwys cronfeydd cyfyngedig, asedau sefydlog diriaethol a symiau a ddynodwyd ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol.
- 65 Adolygwyd lefel y cronfeydd wrth gefn ddwywaith gan y Cyngor yn ystod 2014-2015. Adolygwyd y lefel ym mis Hydref 2014 fel rhan o'r adolygiad o'r amcanestyniadau ariannol a ddefnyddiwyd i bennu lefel y ffi ac fe'i hadolygwyd unwaith eto ym mis Mawrth 2015 fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r gyllideb a'r cynllun busnes. Wrth adolygu'r lefel, mae'r Cyngor yn ystyried yr asesiad diweddaraf a'r gwaith o fesur y prif risgiau, ac yn cytuno ar amrediad priodol y dylai'r elfen o'r cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar risg (a elwir hefyd yn 'gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd') gael ei chynnal oddi fewn iddo.

- 66 Ym mis Hydref 2014 a mis Mawrth 2015, adolygodd y Cyngor y sefyllfa ddiweddaraf o ran y risgiau sy'n sail i'r polisi ar gronfeydd wrth gefn a chytunodd y dylid parhau i ddal cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd o fewn amrediad targed o £10 miliwn i £25 miliwn.
- 67 Ystyrir bod y lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn ddigon ar gyfer blaenoriaethau gweithredu a gofynion cyfalaf gweithio'r NMC os bydd digwyddiad mawr annisgwyl, tra bod arian amgen yn cael ei sicrhau.
- 68 Roedd y cronfeydd rhydd wrth gefn yn werth £20.137 miliwn ar 31 Mawrth 2015 (£17.115 miliwn ar 31 Mawrth 2014) ar ôl didynnu gwerth llyfr net asedau sefydlog o £23.997 miliwn (2013–2014: £23.753 miliwn). Ar ôl addasu ar gyfer cyfran amcangyfrifedig yr NMC o'r diffyg pensiwn, roedd cronfeydd rhydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2015 yn werth £11.5 miliwn (£7.6 miliwn ar 31 Mawrth 2014).

Polisi buddsoddi

- 69 Mae gan yr NMC y pŵer i fuddsoddi ei gronfeydd dros ben fel y gwêl yn briodol er mwyn cynhyrchu incwm. Ar hyn o bryd mae gan yr NMC bolisi buddsoddi ffurfiol, sy'n golygu mai dim ond buddsoddiadau â risg isel, os o gwbl, y gellir eu gwneud.
- 70 Cedwir cronfeydd yr NMC yng nghyfrifon adneuo llog sefydlog pedwar o fanciau stryd fawr y DU. Yn 2014–2015 cynhyrchwyd refeniw o £0.641 miliwn (2013–2014: £0.983 miliwn).

Asedau sefydlog

- 71 Rhoddir gwybodaeth am newidiadau i asedau sefydlog diriaethol yn nodyn 13 i'r cyfrifon. Cost yr ychwanegiadau i asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn oedd £3.721 miliwn.
- 72 Yn ystod 2014 gadawodd yr NMC ei safle gwrandawiaid wedi'i brydlesu yn 20 Old Bailey pan ddaeth y brydles i ben. Trowyd safleoedd eraill yn Stratford yn safle gwrandawiaid a swyddfeydd Addaswydd i Ymarfer. Cost net y prosiect hwn oedd £2.124 miliwn.

Y Fonesig Janet Finch
Cadeirydd
NMC
28 Hydref 2015

Jackie Smith
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
NMC
28 Hydref 2015

Adroddiad cydnabyddiaeth

- 73 Archwilir yr agweddau ariannol ar yr adroddiad hwn gan archwilwyr annibynnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor

- 74 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC ac ef sydd â'r awdurdod terfynol i wneud penderfyniadau fel y'i disgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr NMC. Cadeirydd y Cyngor yn ystod 2014–2015 oedd Mark Addison CB a fu yn y swydd tan 31 Rhagfyr 2014 ac a olynwyd gan y Fonesig Janet Finch ar 1 Ionawr 2015.
- 75 Nid yw aelodau'r Cyngor yn cael cydnabyddiaeth am eu gwasanaeth ond maent yn cael lwfans blynyddol o £12,000 yn seiliedig ar y gofyniad bod aelodau yn treulio dau neu dri diwrnod y mis ar fusnes yr NMC. Mae'r Cadeirydd yn cael lwfans blynyddol o £48,000 yn seiliedig ar y gofyniad i dreulio dau ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd ar fusnes yr NMC. Telir lwfans presenoldeb o £260 y dydd ar gyfer gweithgarwch hyfforddi a sefydlu cyn dechrau'r penodiad.
- 76 Tan 9 Mawrth 2015, roedd yn ofyniad cyfreithiol i Baneli Apeliadau Cofrestru gael eu cadeirio gan aelod o'r Cyngor. Câi aelodau'r cyngor lwfans dyddiol o £340, a ffi ddarllen ddyddiol o £290 lle roedd angen, am gyflawni'r rôl hon. Yn ystod 2014-2015, talwyd cyfanswm o £21,730 mewn lwfansau i aelodau'r Cyngor am gadeirio paneli apeliadau (2013–2014: £26,485).
- 77 Talwyd cyfanswm o £189,730 mewn lwfansau i aelodau'r Cyngor yn 2014-2015 (2013–2014: £207,485). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y lwfansau gwerth £21,730 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru y cyfeiriwyd atynt uchod. Mae'r gostyngiad yn y lwfans a dalwyd yn 2014-2015 i'w briodoli i leoedd gwag yn ystod y flwyddyn. Rhoddir manylion llawn y symiau a dalwyd yn y tabl ar dudalennau 24-25. Ni wnaed unrhyw daliadau¹ arbennig i unrhyw aelod o'r Cyngor yn 2014-2015.
- 78 Telir lwfansau i aelodau'r Cyngor a'i bwyllgorau drwy gyflogres ar wahân lle y didynnir symiau ar gyfer treth incwm ac Yswiriant Gwladol. Ad-delir treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau yn unol â pholisi teithio a chynhaliath yr NMC i aelodau.
- 79 Lle y cynhelir cyfarfodydd yn Llundain, ystyrir bod treuliau yn fuddiant mewn da trehadwy. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE â CThEM. Yn 2014–2015, darparwyd £22,771 ar gyfer yr atebolrwydd hwn i dalu treth mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor (2013–2014: £38,551). Ni ellir datgelu'r dreth sy'n daladwy ar fuddiannau mewn da tybiedig ar gyfer pob aelod unigol o'r Cyngor, gan fod cyfrifiad cyffredinol yn cael ei baratoi yn seiliedig ar gyfanswm y treuliau a chyfran aelodau'r Cyngor ac aelodau partner pwyllgorau.

¹ Mae taliadau arbennig yn yr enghraifft hon yn cyfeirio at daliadau diswyddo arbennig a dalwyd i gyflogeion ac eraill sy'n uwch na'r gofynion statudol neu gytundebol arferol pan fyddant yn gadael cyflogaeth boed hynny pan fyddant yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n dod i gytundeb i derfynu eu contract. Rhaid i daliadau diswyddo arbennig bob amser gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.

80 Mae'r treuliau lle mae atebolrwydd i dalu treth wedi'u cynnwys yn y tabl canlynol. Mae'r treuliau a gafwyd gan aelodau yn amrywio'n fawr oherwydd y costau teithio a llety sy'n gysylltiedig â mynd i gyfarfodydd o gartrefi aelodau ledled y DU.

Aelodau'r Cyngor	Lwfans a dalwyd i'r aelod 2014-2015 (£)	Lwfans a dalwyd i'r aelod 2013-2014 (£)	Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2014-2015 (£)	Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2013-2014 (£)
Mark Addison CB - Cadeirydd ²	36,000	48,000	959	836
Y Fonesig Janet Finch - Cadeirydd ³	12,000	-	137	-
Alison Aitken ⁴	-	1,000	-	1,295
Dr Kuldip Bharj OBE ⁵	-	1,000	-	1,244
Yr Athro Judith Ellis MBE ⁶	3,000	12,170	33	60
Sue Hooton OBE ⁷	-	1,000	-	1,034
Lorna Jacobs ⁸	145	2,940	-	1,587
Grahame Owen ⁹	-	1,485	-	832
Nicki Patterson ¹⁰	-	6,000	-	3,745
David Pyle ¹¹	-	1,000	-	97
Carole Rees-Williams ¹²	-	1,000	-	220
Ruth Sawtell ¹³	-	1,000	-	87
Beatrice Teuten ¹⁴	-	1,000	-	167
Yr Athro Jane Tunstill ¹⁵	-	1,000	-	-
Maureen Morgan OBE ¹⁶	13,940	14,590	1,489	2,501
Maura Devlin ¹⁷	16,535	7,020	6,131	3,360
Quinton Quayle	12,000	11,000	1,012	2,908
Louise Scull	12,000	11,000	2,891	3,238
Carol Shillabeer	12,000	11,000	1,315	2,305
Elinor Smith ¹⁸	9,970	12,455	2,738	5,088
Amerdeep Somal ¹⁹	13,310	15,850	4,552	7,024

² Cadeirydd tan 31 Rhagfyr 2014.

³ Penodwyd yn Gadeirydd y Cyngor o 1 Ionawr 2015.

⁴ Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.

⁵ Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.

⁶ Ymddiswyddodd 30 Mehefin 2014.

⁷ Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.

⁸ Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013. Yn cynnwys taliadau lwfans o £145 yn 2013-2014 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.

⁹ Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.

¹⁰ Mewn swydd hyd at 30 Medi 2013.

¹¹ Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.

¹² Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.

¹³ Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.

¹⁴ Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.

¹⁵ Mewn swydd hyd at 30 Ebrill 2013.

¹⁶ Yn cynnwys taliadau lwfans o £1,940 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.

¹⁷ Yn cynnwys taliadau lwfans o £4,535 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.

¹⁸ Ymddiswyddodd 17 Rhagfyr 2014. Yn cynnwys taliadau lwfans o £970 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.

¹⁹ Yn cynnwys taliadau lwfans o £1,310 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.

Aelodau'r Cyngor	Lwfans a dalwyd i'r aelod 2014-2015 (£)	Lwfans a dalwyd i'r aelod 2013-2014 (£)	Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2014–2015 (£)	Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2013–2014 (£)
Stephen Thornton CBE	12,000	11,000	1,365	2,986
Lorna Tinsley ²⁰	24,345	23,975	5,242	5,343
Dr Anne Wright CBE ²¹	12,485	11,000	16	-

81 Mae aelodau partner, sef aelodau pwyllgorau nad ydynt yn aelodau'r Cyngor, yn cael lwfans presenoldeb dyddiol o £260 a threuliau teithio rhesymol.

Dulliau a ddefnyddir i asesu perfformiad aelodau

82 Mae gan y Cyngor bolisi a phroses y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer adolygu a gwella effeithiolrwydd y Cyngor ei hun a'i aelodau. Cynhaliwyd adolygiadau blynyddol o berfformiad y Cadeirydd ac aelodau unigol yn 2014-2015.

83 Caiff perfformiad Cadeirydd y Cyngor ei adolygu gan y Dirprwy Gadeiryddion, a hynny drwy adolygiad strwythuredig a gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n cynnwys hunanasesiad gan y Cadeirydd ac asesiad cymheiriaid gan aelodau'r Cyngor. Defnyddir y canlyniadau i gytuno ar amcanion a phennu anghenion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae proses debyg ar waith ar gyfer aelodau unigol o'r Cyngor a arweinir gan y Cadeirydd.

Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad yr Uwch Dîm Rheoli

84 Mae'r uwch dîm rheoli (sef y Weithrediaeth) yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfarwyddwyr sy'n atebol yn uniongyrchol iddi hi. Nid ydynt yn aelodau o'r Cyngor nac yn ymddiriedolwyr yr NMC.

85 Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac sy'n atebol iddo ac mae ganddo awdurdod i wneud penderfyniadau i'r graddau a ddisgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol fel y'i dirprwywyd gan y Cyngor. Felly yr unig fanylion am gydnabyddiaeth a ddatgelir yn llawn yw rhai'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Fel arfer mae contract cyflogaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti neu'r llall roi chwe mis o rybudd er mwyn terfynu'r contract. O ran cyfarwyddwyr, mae'n ofynnol iddynt roi tri mis o rybudd.

86 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried ac yn argymhell i'r Cyngor strategaeth wobrwyo briodol ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r chyfarwyddwyr. Y Pwyllgor sy'n cymeradwyo pecyn gwobrwyo'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r chyfarwyddwyr bob blwyddyn yn unol â'r strategaeth wobrwyo a bennwyd gan y Cyngor. Yn 2014-2015, cymhwyswyd cynnydd o 2.5 y cant at gyflogau pob aelod o staff, gan gynnwys aelodau'r Weithrediaeth.

87 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cymeradwyo'r broses o bennu amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a gwerthuso ei berfformiad, ac yn adolygu

²⁰ Yn cynnwys taliadau lwfans o £12,345 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.

²¹ Yn cynnwys taliadau lwfans o £485 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.

adroddiadau gan y Cadeirydd mewn perthynas â hynny. Mae hefyd yn adolygu adroddiadau gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ymwneud â phennu amcanion ar gyfer y cyfarwyddwyr a gwerthuso eu perfformiad. Aseswyd perfformiad y cyfarwyddwyr drwy ein proses adolygu perfformiad a datblygiad a weithredwyd yn ystod 2014-2015.

- 88 Yn 2014–2015, gan ddilyn cyngor y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, cyflwynodd y Cyngor gynllun tâl yn seiliedig ar gyflogaeth ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr. O dan y cynllun, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr yn gymwys i gael bonws perfformiad ar wahân nad yw'n bensiynadwy sy'n seiliedig ar asesiad gwrthrychol seiliedig ar dystiolaeth yn erbyn amcanion tîm ac amcanion personol unigol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun corfforaethol. Caiff unrhyw daliadau bonws a ddyfernir am berfformiad yn ystod 2014–2015 eu talu yn 2015–2016. Caiff effeithiolrwydd y cynllun ei adolygu gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth bob blwyddyn a chynhelir yr adolygiad cyntaf ym mis Hydref 2015.
- 89 Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn 2014–2015 oedd £161,000²² a gwerth ei buddiannau pensiwn oedd £43,512,²³ sy'n golygu mai cyfanswm y gydnabyddiaeth oedd £204,512 (yn 2013–2014, ei chydabyddiaeth oedd £164,677 a gwerth ei buddiannau pensiwn oedd £54,200,²⁴ sy'n golygu mai cyfanswm ei chydabyddiaeth oedd £218,877).
- 90 Mae Jackie Smith, sef y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn yr NMC (gweler nodyn 11 i'r cyfrifon). Mae manylion sefyllfa ei phensiwn fel a ganlyn:
- Roedd y cynnydd gwirioneddol yn ystod 2014-2015 yn ei phensiwn yn 60 oed rhwng £2,500 a £5,000 y flwyddyn (2013-2014: rhwng £2,500 a £5,000).
 - Pe bai'n derbyn yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, byddai'r cynnydd gwirioneddol yn ystod 2014-2015 yng ngwerth y cyfandaliad hwn ar 31 Mawrth 2015 rhwng £12,500 a £15,000 a byddai'r cynnydd gwirioneddol yn ei phensiwn gweddilliol rhwng £0 a £2,500 y flwyddyn.
 - Roedd y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2015 rhwng £10,000 a £15,000 y flwyddyn (31 Mawrth 2014: rhwng £5,000 a £10,000 y flwyddyn). Pe bai'n derbyn yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, byddai gwerth y cyfandaliad hwn ar 31 Mawrth 2015 rhwng £50,000 a £55,000 a byddai hyn yn gadael pensiwn gweddilliol o rhwng £5,000 y flwyddyn a £10,000 y flwyddyn yn 60 oed ar 31 Mawrth 2015.

²² Mae'r swm ar gyfer 2014-2015 yn cynnwys cynnydd o 2.5 y cant mewn cyflog sylfaenol yn unol â'r codiad cyflog ar gyfer pob aelod o staff, ynghyd â thaliad am chwe diwrnod o wyliau blynyddol nas cymerwyd yn ystod 2014–2015.

²³ Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn ar sail y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn ystod y flwyddyn, wedi'i luosi ag 20, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai cyfraniadau a wnaed gan yr aelod. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

²⁴ Mae'r ffigur cymharol ar gyfer 2013-2014 wedi'i ailddatgan (o £69,240 i £54,200) er mwyn nodi'r buddiant yn seiliedig ar y cyflog wedi'i gapio at ddibenion pensiwn sy'n gymwys yn y cynllun pensiwn.

- Gwerth trosglwyddo cyfwerth²⁵ ag arian parod buddiannau ar ddechrau'r flwyddyn oedd £199,000.
- Y cynnydd net yn y gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant gan ystyried cyfraniadau'r aelod) yw £80,000.
- Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod buddiannau ar 31 Mawrth 2015 yw £342,000 (31 Mawrth 2014: £199,000).²⁶

91 Ni chafodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd unrhyw fuddiannau nad oeddent yn rhai arian parod (buddiannau mewn da) yn 2014-2015.

Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad aelodau eraill o staff

- 92 Mae pob cyflogai yn ymgymryd â chyfnod prawf o chwe mis pan fydd yn dechrau mewn cyflogaeth a disgwylir iddo roi rhybudd o un i dri mis yn dibynnu ar radd y swydd.
- 93 Adolygir cydnabyddiaeth pob cyflogai bob blwyddyn gan ystyried amrywiaeth o wybodaeth gan gynnwys fforddiadwyedd, cost cyfraddau byw, data meincnodi a data recriwtio a chadw yn gyffredinol. Mae'r Cyngor yn darparu ar gyfer unrhyw godiad yng nghyflog staff o fewn y gyllideb yn unol ag argymhellion gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Yn 2014-2015, cymeradwyodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth argymhelliad y Weithrediaeth i ddyfarnu cynnydd chwyddiannol cyffredinol o 2.5 y cant at gyflog pob aelod o staff cymwys o staff yn weithredol o 1 Ebrill 2014: (2013–2014 2.3 y cant).
- 94 Fel sefydliad rydym yn ymrwymedig i fuddsoddi yn ein staff. Gan adeiladu ar yr adolygiad o gyflogau a graddfeydd a gwblhawyd yn 2013-2014 rydym yn parhau i weithio gyda chynghorwyr allanol ar daliadau er mwyn sicrhau y gallwn ddenu a chadw gweithlu sy'n meddu ar y sgiliau priodol. Yn ystod 2014–2015 penderfynodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, yn ogystal â'r dyfarniad cyflog chwyddiannol cyffredinol, y câi cyflog aelodau o staff â mwy na 12 mis o wasanaeth ei gynyddu i lefel ofynnol o 10 y cant islaw'r gyfradd ganolrifol ar gyfer eu graddfa gyflog os nad oedd eisoes ar y lefel honno. Gan ddilyn cyngor y Pwyllgor, cytunodd y Cyngor hefyd y dylai fod gan y Weithrediaeth yr hyblygrwydd i dalu cyfraddau gwahanol am sgiliau arbenigol mewn meysydd wedi'u targedu lle mae hynny'n hanfodol i ddenu a chadw staff i gyflawni swyddogaethau sefydliadol allweddol.
- 95 Gweithredwyd ein proses adolygu perfformiad a datblygiad yn ôl yr arfer drwy gydol y flwyddyn ond nid oedd yn gysylltiedig ag ystyriaethau cyflog. Yn y dyfodol, efallai yr ystyrir sut y dylai unrhyw gysylltiadau rhwng cyflog a pherfformiad weithredu o dan y trefniadau newydd.

²⁵ Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraid buddiannau'r cynllun pensiwn a gronwyd gan aelod ar adeg benodol.

²⁶ Gellir priodoli'r gwahaniaeth rhwng y gwerth trosglwyddo ar ddechrau'r flwyddyn, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol dros y flwyddyn, o gymharu â'r gwerth trosglwyddo hyd at 31 Mawrth 2014 i newidiadau yn y tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo gwerthoedd trosglwyddo ar y ddau ddyddiad gwahanol. Mae'r ffigur cymharol ar gyfer 2013-2014 wedi'i ailddatgan (o £216,000 i £199,000) er mwyn nodi'r buddiant yn seiliedig ar y cyflog wedi'i gapio at ddibenion pensiwn sy'n gymwys yn y cynllun pensiwn.

Trefniadau pensiwn

- 96 Mae'r NMC yn gweithredu dau gynllun pensiwn: cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a chynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig.
- 97 Mae cyflogeion sy'n aelodau o'r cynllun buddiannau diffiniedig yn cyfrannu gwerth chwech y cant o'u cyflog. Cyfrannodd y cyflogwr 29.2 y cant at y cynllun pensiwn yn ystod 2014-2015, fel y nodwyd gan Actwari'r Cynllun. Roedd tua 36 y cant o gyflogeion yn aelodau o'r cynllun hwn ar 31 Mawrth 2015. Caewyd y cynllun i gyflogeion a ymunodd â'r NMC ar ôl 1 Tachwedd 2013
- 98 Sefydlodd yr NMC gynllun cyfraniadau diffiniedig o 1 Tachwedd 2013 y gallai cyflogeion a ymunodd â'r NMC ar neu ar ôl y dyddiad hwn ddewis ymuno ag ef. Mabwysiadwyd y cynllun fel cynllun pensiwn gweithle'r NMC at ddibenion awto-gofrestru o 1 Ebrill 2014 pan gafodd pob cyflogai cymwys ei gofrestru'n awtomatig ar gyfer y cynllun. Ar 31 Mawrth 2015, arhosodd 94 y cant o'r rhai a gofrestrwyd ar gyfer y cynllun ynddo. Yn ystod 2014-2015 y cyfraniadau gofynnol sylfaenol i'r cynllun oedd 4 y cant ar gyfer y cyflogwr ac 1 y cant ar gyfer y cyflogai.

Gwahaniaethau cyflog yn yr NMC

- 99 Roedd cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf, sef y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, 5.88 gwaith (2013–2014: 6.13 gwaith) yn fwy na chydabyddiaeth ganolrifol y gweithle, sef £27,398 (2013–2014: £26,859). Gellir priodoli'r lleihad yn y gwahaniaeth yn 2014–2015 i'r ffaith bod cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr yn 2013–2014 yn cynnwys taliad am 19 diwrnod o wyliau blynyddol nas cymerwyd yn y flwyddyn honno.
- 100 Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân nad yw'n gysylltiedig â pherfformiad, buddiannau mewn da, gwyliau blynyddol â thâl yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensïynau.
- 101 Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth yn nodyn 11 i'r cyfrifon.

Y Fonesig Janet Finch
Cadeirydd
NMC
28 Hydref 2015

Jackie Smith
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
NMC
28 Hydref 2015

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon

- 102 Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r gyfarwydddeb a roddwyd gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau (SoRP) a bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â'r Safonau Cyfrifyddu cymwys a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu (Atodiad 1).
- 103 Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi ac archwilio cyfrifon blynyddol. Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cyfrifyddu) yn gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.
- 104 Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r broses o ddefnyddio adnoddau'r elusen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn rhaid iddynt wneud y canlynol:
- dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfrifon cymwys a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
 - dewis polisiâu cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson
 - dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau
 - llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
 - paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu
 - datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys
 - datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol.
- 105 Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleidd-dra arall.
- 106 Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, ym *Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu*, a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, ac yn *Managing public money* (Trysorlys EM, 2013).

Prif le busnes

107 Mae'r NMC yn gweithio ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ei brif le busnes yw:

23 Portland Place
London
W1B 1PZ

Cynghorwyr

Archwilwyr ar y Cyd

haysmacintyre
Cyfrifwyr Siartredig
26 Red Lion Square
London
WC1R 4AG

Bancwyr

HSBC
117 Great Portland Street
London
W1A 4UY

Archwilwyr Mewnol

Moore Stephens
150 Aldersgate Street
London
EC1A 4AB

Archwilwyr ar y Cyd

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

Cyfreithwyr

Field Fisher Waterhouse
35 Vine Street
London
EC3N 2AA

Datganiad Ilywodraethu blynyddol

108 Mae'r NMC yn gorff statudol annibynnol. Nodir ein pwerau a'n cyfrifoldebau yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd) (y Gorchymyn) ac yn ein rheolau statudol.²⁷ Rydym hefyd yn elusen gofrestrdig yng Nghymru a Lloegr (rhif 1091434) ac yn yr Alban (rhif SC038362). Ein hamcan elusennol yw diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ac eglurwn mewn rhan arall o'r adroddiad hwn sut mae ein gwaith yn dangos budd y cyhoedd.

Y Cyngor

109 Y Cyngor yw corff Ilywodraethu'r NMC ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol ar y cyd am gyfarwyddo materion yr NMC, gan sicrhau ei fod yn solfent, yn cael ei redeg yn dda ac yn sicrhau budd i'r cyhoedd.

110 Mae Cynllun Dirprwyo'r NMC yn nodi materion sydd wedi'u cadw'n ôl yn ffurfiol i'r Cyngor fel Bwrdd Ymddiriedolwyr yr NMC. Cylch gwaith y Cyngor yw (a) pennu cyfeiriad strategol a gwerthoedd corfforaethol yr NMC, yn unol â'i ddiben craidd; (b) sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a risg; (c) cynnal gonestrwydd wrth arfer swyddogaethau'r NMC a defnyddio cronfeydd, a chynnal atebolrwydd cyhoeddus amdanynt.

111 Cyfansoddwyd y Cyngor yn unol â Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012.²⁸ Mae'n cynnwys 12 aelod a nifer gyfartal o aelodau cofrestredig ac aelodau lleyg. Aelodau lleyg yw'r rhai nad ydynt erioed wedi bod yn nyrs na bydwaig gofrestrdig. Penodir pob aelod gan y Cyfrin Gyngor, sy'n cael sicrwydd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) ynghylch cadernid y broses benodi neu ailbenodi a fabwysiadwyd gan yr NMC.

112 Yn dilyn ymarfer recriwtio agored, penodwyd yr Athro y Fonesig Janet Finch yn Gadeirydd y Cyngor o 1 Ionawr 2015, gan olynu Mark Addison CB, a fu'n gwasanaethu fel y Cadeirydd rhwng 10 Medi 2012 a 31 Rhagfyr 2014.

113 Yn ystod 2014–2015, ailbenodwyd tri aelod i wasanaethu am gyfnodau pellach o 1 Mai 2015. Cynhaliwyd ymarfer recriwtio agored er mwyn llenwi dau le gwag ar gyfer aelodau cofrestredig a phenododd y Cyfrin Gyngor ddau aelod newydd i ddechrau yn eu swydd yn weithredol o 1 Mai 2015. Mae'r ddau wedi dilyn rhaglen sefydlu.

114 Nodir isod aelodaeth y Cyngor yn ystod 2014-2015 a phresenoldeb yr aelodau.

²⁷ OS 2002/253

²⁸ OS 2012/2745

Aelodaeth y cyngor a ffigurau presenoldeb rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015

Aelod	Cyfarfodydd	Yn bresennol
Mark Addison CB (Cadeirydd hyd at 31 Rhagfyr 2014)	4	4
Yr Athro y Fonesig Janet Finch (Cadeirydd o 1 Ionawr 2015)	2	2
Yr Athro Judith Ellis MBE (ymddiswyddodd 30 Mehefin 2014)	1	1
Maureen Morgan OBE	6	3
Maura Devlin MBE	6	6
Quinton Quayle	6	6
Louise Scull	6	5
Carol Shillabeer	6	6
Elinor Smith (ymddiswyddodd 17 Rhagfyr 2014)	4	3
Amerdeep Somal	6	6
Stephen Thornton CBE (TN 1)	4	4
Lorna Tinsley	6	6
Dr Anne Wright CBE	6	6

TN 1: Cafodd gyfnod o absenoldeb rhwng mis Ebrill a mis Awst 2014

115 Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Pwyllgor Bydwreigiaeth. At hynny, mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio; Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth; a Bwrdd Penodiadau i'w helpu i gyflawni ei rôl. Nodir isod gylch gwaith, aelodaeth a ffigurau presenoldeb pob Pwyllgor.

Pwyllgor Archwilio

116 Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio yw helpu'r Cyngor a'i reolwyr drwy adolygu cyflawnder a dibynadwyedd sicrwydd o ran llywodraethu, rheoli risg, rheoli'r amgylchedd ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mai 2014 a 31 Mawrth 2015.

Aelod	Cyfarfodydd	Yn bresennol
Louise Scull (Cadeirydd)	4	4
Carol Shillabeer	4	3
Stephen Thornton (TN 1)	2	2
Maureen Morgan (TN 2)	1	1

TN 1: Cafodd gyfnod o absenoldeb rhwng mis Ebrill a mis Awst 2014

TN 2: Aelod dirprwyol o'r Pwyllgor ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai a mis Awst 2014

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

117 Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer cydnabyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn yr NMC. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mai 2014 a 31 Mawrth 2015.

Aelod	Cyfarfodydd	Yn bresennol
Quinton Quayle (Cadeirydd)	5	5
Elinor Smith (ymddiswyddodd 17 Rhagfyr 2014)	4	4
Amerdeep Somal	5	5
Stephen Thornton (TN 1)	3	3
Maura Devlin MBE (o 10 Chwefror 2015)	1	1

TN 1: Cafodd gyfnod o absenoldeb rhwng mis Ebrill a mis Awst 2014

Y Pwyllgor Bydwreigiaeth

118 Cylch gwaith statudol y Pwyllgor Bydwreigiaeth yw cynghori'r Cyngor ar bob mater sy'n ymwneud â bydwreigiaeth. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mai 2014 a 31 Mawrth 2015.

Aelod	Cyfarfod ydd	Yn bresennol
Dr Anne Wright CBE (Cadeirydd)	8*	8
Lorna Tinsley	8*	7
Patricia Gillen	8*	7
Pradeep Agrawal	8*	7
Yvonne Bronsky (o 1 Ionawr 2015)	2	2
Farrak Pradhan (o 1 Ionawr 2015)	2	2
Susanne Roff (o 1 Ionawr 2015)	2	1
Dr Tina Harris (o 2 Ionawr 2015)	2	2
Ann Holmes	8*	5
Kirsty Darwent (hyd at 30 Rhagfyr 2014)	6*	4
Marie McDonald (hyd at 30 Rhagfyr 2014)	6*	6

*Roedd tri o'r cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd eithriadol mewn sesiwn gyfrinachol

Bwrdd Penodiadau

119 Cylch gwaith y Bwrdd Penodiadau yw helpu'r Cyngor i arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â phenodi Aelodau Panel ac Aseswyr Cyfreithiol. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mai 2014 a 31 Mawrth 2015.

Aelod	Cyfarfodydd	Yn bresennol
Nigel Ratcliffe (Cadeirydd) (hyd at 31 Rhagfyr 2014)	4	4
Bridget Anderson (ailbenodwyd 18 Rhagfyr 2014)	4	1
Mary Dowling (ailbenodwyd 18 Rhagfyr 2014)	4	4
Stephen McCafferty (ailbenodwyd 18 Rhagfyr 2014)	4	4

Rôl y Weithrediaeth

- 120 Penodir y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan y Cyngor ac mae'n atebol iddo. Cylch gwaith y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw arwain materion a rheoli adnoddau'r NMC o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cyngor.
- 121 Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol yn bersonol am faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol; cadw cyfrif priodol o faterion ariannol; osgoi gwastraff ac afradlondeb; defnyddio adnoddau yn effeithiol.
- 122 Cadeirir y Bwrdd Gweithredol gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac mae'n cynnwys cyfarwyddwyr pob un o'r swyddogaethau corfforaethol. Cylch gwaith y Bwrdd Gweithredol yw helpu'r Prif Weithredwr i gyflawni ei chyfrifoldebau drwy (a) datblygu a gweithredu strategaethau, polisïau, cynlluniau busnes, a chyllidebau; (b) monitro perfformiad gweithredol ac ariannol; (c) gwerthuso a rheoli risg; (ch) blaenoriaethu a dyrannu adnoddau.

Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu

- 123 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i lywodraethu o safon uchel. Mae ein harfer yn cydymffurfio â *Chod Ymarfer Da Llywodraethu Corfforaethol* Trysorlys EM i'r graddau y mae'n gymwys i'r sefydliad. Mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus, sef: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.
- 124 Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad o'i effeithiolrwydd ei hun, ac felly hefyd pob Pwyllgor. Yn ystod 2014–2015, ymhlith y canlyniadau allweddol o'r adolygiad a gynhaliwyd yn 2013–2014 yr aed ar eu trywydd roedd y canlynol:
- 124.1 Diweddarau cymwyseddau aelodau. Defnyddiwyd y rhain er mwyn llywio'r prosesau ailbenodi a recriwtio a gynhaliwyd yn ystod 2014-2015.
- 124.2 Mabwysiadu dull symlach o gynnal adolygiadau o effeithiolrwydd ar gyfer 2014–2015.
- 125 Nododd adolygiad y Cyngor o effeithiolrwydd ar gyfer 2014-2015 y meysydd canlynol y dylid rhoi sylw iddynt yn 2015-2016:
- 125.1 Sicrhau bod gan y Cyngor y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol er mwyn iddo allu cyflawni ei rolau strategol a'i rolau goruchwylio gan gynnwys mewn perthynas â chyllid, Adnoddau Dynol a TGCh.
- 125.2 Sicrhau bod gan y Cyngor aelodaeth ddigonol amrywiol er mwyn darparu ar gyfer amrywiaeth eang o safbwyntiau.
- 125.3 Cynnig cyfleoedd datblygu priodol i aelodau'r Cyngor.
- 125.4 Gwella ansawdd y wybodaeth a roddir i'r Cyngor ymhellach (gweler paragraffau 132 a 133 isod).

Adolygiad allanol

- 126 Comisiynodd y Cyngor adolygiad allanol annibynnol o'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn Adroddiad Strategol 2012 yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.²⁹ Canfu'r adolygiad, yn bwysig ddigon, ein bod yn canolbwyntio ar ein swyddogaethau rheoliadol craidd a'n bod wedi gwneud nifer sylweddol o welliannau, gan gynnwys cynnydd yn erbyn pob un o'r pedwar maes lle roedd angen cymryd camau ym marn yr Awdurdod Safonau Proffesiynol: diben rheoleiddio; safbwyntiau rhanddeiliaid allanol; pobl a diwylliant; a rheolaeth weithredol.
- 127 Asesodd yr adolygiad fod gwell cynnydd wedi'i wneud o ran trefniadau llywodraethu: canfu dystiolaeth gadarn o brosesau datblygedig a sefydledig a bod y Cyngor yn canolbwyntio'n gryf ar faterion strategol, gyda'r Weithrediaeth yn atebol am reoli gweithrediadau o ddydd i ddydd. Yn gyffredinol, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod yr NMC mewn sefyllfa gryfach o lawer nag yn 2012.
- 128 Y maes pwysicaf i'w wella ymhellach a nodwyd yn yr adolygiad oedd bod angen canolbwyntio'n fwy ar arweinyddiaeth a buddsoddi mwy mewn TGCh. Mae sylw yn cael ei roi i'r maes hwn fel prif flaenoriaeth fel y trafodir ym mharagraff 149 isod.
- 129 Ymhlith y meysydd eraill y nododd yr adolygiad fod angen parhau i ganolbwyntio arnynt roedd y canlynol:
- 129.1 Gwasanaeth cwsmeriaid: mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fabwysiadu safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid Swyddfa'r Cabinet™ ac mae prosiect i gyflawni hyn wedi dechrau yn 2014–2015, gyda chymorth arbenigedd allanol.
- 129.2 Sicrhau ansawdd: trafodir camau gweithredu ym mharagraff 138.2 isod.
- 129.3 Gwybodaeth reoli a gwybodaeth ariannol: mae camau yn cael eu cymryd fel y nodir ym mharagraffau 132 a 133 isod.

Adolygiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol o berfformiad 2014-2015

- 130 Cydnabu asesiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol o berfformiad yn 2014-2015 welliannau a chynnydd sylweddol ym mhob un o'n swyddogaethau ac, o ganlyniad, aseswyd bod tair Safon Rheoleiddio Da ychwanegol wedi'u cyrraedd yn 2014-2015. Ymhlith y meysydd y nodwyd bod angen eu gwella roedd rhoi'r model ail-ddilysu ar waith; cywirdeb ac uniondeb y gofrestr; prosesau addasrwydd i ymarfer; gwasanaeth cwsmeriaid; prosesau gwneud penderfyniadau; a diogelwch gwybodaeth. Mae camau gweithredu i fynd i'r afael â phob un o'r rhain yn cael eu datblygu yn 2015–2016 (gweler paragraff 162 isod).

Strategaeth yr NMC ar gyfer 2015–2020

- 131 Mae Strategaeth yr NMC ar gyfer 2015-2020 a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2015 yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer y dyfodol sy'n canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth strategol. Mae canfyddiadau'r adolygiad allanol, adolygiadau'r

²⁹ Adolygiad allanol o'r cynnydd a wnaed gan yr NMC yn erbyn argymhellion Adolygiad Strategol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol 2012 (NMC, Medi 2014).

Awdurdod Safonau Proffesiynol o berfformiad, ynghyd â meysydd i'w gwella a nodwyd drwy ffynonellau allanol a mewnol eraill, gweithgarwch chwilio gorwelion a mewnbwn gan randdeiliaid oll wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth. Mae'r Strategaeth yn cael ei datblygu drwy ein cynllun corfforaethol blynyddol ar gyfer 2015-2016, a nodir ar dudalennau 17 i 19. Ategir y cynllun gan gynlluniau busnes cyfarwyddiaethau, sy'n nodi amcanion clir ar gyfer cyflawni.

Ansawdd data

- 132 Mae'r Cyngor yn parhau i gael adroddiad ar berfformiad a risg ar y cyd ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau y caiff asesiadau o risg eu llywio gan berfformiad. Rhoddodd adolygiad archwilio mewnol yn 2013 sicrwydd am y data corfforaethol allweddol y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt. Ym mis Gorffennaf 2014, ailystyriodd y Cyngor y wybodaeth am berfformiad y mae'n ei chael a phenderfynodd y dylai'r dangosyddion perfformiad corfforaethol allweddol barhau i fod ar waith ar gyfer 2014–2015.
- 133 Mae'r Cyngor yn dal i fod yn rhagweithiol wrth benderfynu, gyda'r Weithrediaeth, pa wybodaeth sydd ei hangen arno er mwyn craffu ar berfformiad a materion eraill. Yn sgil yr adolygiad allanol ac adolygiad y Cyngor ei hun o effeithiolrwydd, mae rhagor o welliannau yn cael eu gwneud i adroddiadau ar berfformiad ac adroddiadau ariannol ar gyfer 2015-2016, gan gynnwys ymgorffori targedau perfformiad clir ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio allweddol; datblygu gwybodaeth ansoddol am berfformiad; a data perfformiad ategol penodol y gofynnir amdanynt gan y Cyngor mewn meysydd allweddol megis cofrestru, addasrwydd i ymarfer ac effeithlonrwydd. Rydym yn blaenoriaethu gwaith i wella ansawdd data a systemau fel rhan o'n cynlluniau ar gyfer 2015-2016.

Rheoli risg a rheolaeth fewnol

- 134 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn er mwyn galluogi'r NMC i gyflawni ei ddiben rheoleiddio craidd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg yn hytrach na'i dileu, ac i roi sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â gweithredu'r system rheolaeth fewnol a rheoli risg.
- 135 Y Cyngor sy'n gyfrifol yn gyffredinol am reoli risg ac mae'n cynnal adolygiad corfforaethol blynyddol o risgiau. Mae'r Cyngor hefyd wedi trafod y prif risgiau y mae'r NMC yn eu hwynebu ym mhob un o'i gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi trafod y broses o reoli risg, ac wedi ystyried effeithiolrwydd y broses rheoli risg, ym mhob un o'i gyfarfodydd.
- 136 Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am weithredu'r system rheoli risg a rheolaeth fewnol a, thrwy'r cyfarwyddwyr, am nodi a gwerthuso risgiau, gan roi mesurau lliniaru priodol ar waith a monitro cynnydd a chyflwyno adroddiadau arno. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol yn ei gyfarfodydd misol. Mae grŵp craffu ar risg mewnol yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Gweithredol ynglŷn â'r ffordd y mae risg yn cael ei rheoli ym mhob rhan o'r sefydliad.
- 137 Rydym yn cynnal adolygiad mewnol blynyddol o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg. Mae gwersi o'r adolygiad hwn, ac archwiliadau mewnol a gynhaliwyd yn 2013-2014, wedi llywio gwelliannau i'n fframwaith rheoli risg, gan gynnwys codi

ymwybyddiaeth o risgiau a deall rheolaethau risg ym mhob rhan o'r sefydliad. Cadarnhaodd adolygiad archwilio mewnol pellach yn 2014-2015 fod fframwaith rheoli risg wedi'i gynllunio'n dda ar waith a bod ein proses rheoli risg yn sefydledig. Gweithredir ar argymhellion o'r archwiliad hwn a'n hadolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ar gyfer 2014-2015 yn y flwyddyn i ddod.

138 Ymhlith y camau a gymerwyd i atgyfnerthu rheolaethau mewnol a ffynonellau sicrwydd yn ystod y flwyddyn roedd:

138.1 Diwygio'r Map Sicrwydd corfforaethol a thystiolaeth gysylltiedig gan y cyfarwyddwyr, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2014. Mae gwaith pellach i ddatblygu defnyddioldeb y map ansawdd yn mynd rhagddo.

138.2 Gwaith pellach i roi'r Strategaeth Sicrhau Ansawdd Corfforaethol ar waith, gan gynnwys:

138.2.1 datblygu safonau ansawdd corfforaethol ac ymgorffori fframweithiau rheoli perfformiad ac ansawdd ym mhob rhan o'r sefydliad erbyn mis Ionawr 2015;

138.2.2 adolygu ffocws a methodoleg adolygiadau Sicrhau Ansawdd corfforaethol yn y dyfodol er mwyn asesu a oes mesurau rheoli ansawdd cyfarwyddiadau rheoliadol ar waith ac a ydynt yn effeithiol.

138.3 Adolygu'r polisi a'r broses gorfforaethol ar gyfer cwynion gyda hyfforddiant cysylltiedig i aelodau allweddol o staff er mwyn eu helpu i ddysgu a gwella'n barhaus.

Gweithio gydag eraill er mwyn mynd i'r afael â risgiau a rennir

139 Rydym wedi diweddarau neu lunio amrywiaeth o Femoranda Cyd-ddealltwriaeth â rheoleiddwyr systemau a chyrrff partner eraill er mwyn cefnogi cydweithio a chydweithredu. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth o fewn cyfyngiadau ein data a'n systemau presennol ac, fel y nodwyd uchod, rydym wedi blaenoriaethu'r maes hwn ar gyfer gwaith pellach yn 2015-2016. Ymhlith pethau eraill, mae strategaeth yr NMC yn cynnwys cynlluniau i ddatblygu'r gwaith cydweithredol hwn ymhellach, gan adeiladu ar amrywiaeth o raglenni cydweithio sydd eisoes yn mynd rhagddynt mewn swyddogaethau rheoleiddio a swyddogaethau cymorth.

140 Roedd datblygiadau pwysig yn ystod y flwyddyn yn cynnwys cyhoeddi Datganiad ar y Cyd gan wyth o'r rheoleiddwyr proffesiynol ar ddyletswydd broffesiynol gonestrwydd, mewn ymateb i'r adroddiad ar Ymddiriedolaeth Ysbytai GIG Canolbarth Swydd Stafford³⁰ a'r canllawiau i feddygon, nyrsys a bydwagedd ar ddyletswydd broffesiynol gonestrwydd a ddatblygwyd ar ôl hynny ar y cyd â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (gweler hefyd baragraff 153 isod). Byddwn yn adeiladu ar y mentrau hyn a mentrau eraill, megis datblygu gwasanaeth cyswllt cyflogwyr, er mwyn cyflawni ein hamcanion a rheoli risgiau rheoliadol a rennir.

³⁰ Adroddiad yr Ymchwiliad i Ymddiriedolaeth Ysbytai Canolbarth Swydd Stafford, Syr Robert Francis Cwnsler y Frenhines

Datgeliadau er Budd y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)

- 141 Mae'r NMC wedi rhoi polisi datgeliadau er budd y cyhoedd ('chwythu'r chwiban') ar waith i'w ddefnyddio gan bob unigolyn sy'n gweithio i'r NMC, gydag ef neu ar ei ran. Rhoddwyd y polisi chwythu'r chwiban ar waith ar ddau achlysur yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015. Ym mhob achos roedd y pryderon a godwyd yn ymwneud yn gyfan gwbl â phrosesau mewnol ac ni wnaethant godi unrhyw faterion a oedd yn ymwneud â diogelu'r cyhoedd. Ymchwiliwyd i'r naill a'r llall a chyflwynwyd adroddiadau arnynt i'r Pwyllgor Archwilio gyda chymau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ym mhob achos.
- 142 Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y caiff staff eu hannog i godi pryderon ac y gallant wneud hynny a gwnaethom ymuno ag ymgych First 100 Public Concern at Work (PCaW) ym mis Gorffennaf 2014. Rydym yn gwneud mân ddiwygiadau i'n polisi Chwythu'r Chwiban, yn ogystal â chymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth staff a chyflwyno hyfforddiant, er mwyn cydymffurfio â chod ymarfer PCaW yn ystod 2015-2016.

Llywodraethu Gwybodaeth a diffygion o ran diogelwch

- 143 Mae polisïau'r NMC yn ei gwneud yn ofynnol i roi gwybod am bob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys colli unrhyw ddata personol. Caiff digwyddiadau eu monitro gan y Bwrdd Llywodraethu a Diogelwch Gwybodaeth sy'n atebol i'r Bwrdd Gweithredol am sicrhau y caiff gwersi eu dysgu er mwyn atal digwyddiadau rhag codi eto. Mae'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth.
- 144 Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015, bu 119 o ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth, y cafodd pedwar ohonynt eu dosbarthu'n rhai difrifol iawn neu ddifrifol; 43 yn rhai cymedrol; 58 yn rhai mân; a 14 yn rhai dibwys; Rhoddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am dri achos yn ystod y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2015, un a oedd yn ymwneud â rhai dogfennau a oedd yn cynnwys data personol sensitif a anfonwyd at y derbynnnydd anghywir drwy gamgymeriad, un lle y cafodd cyfeiriad cartref yr aelod cofrestredig ei gynnwys drwy gamgymeriad o fewn canlyniad gwrandawriad a gyhoeddwyd ar wefan yr NMC ac un lle y cafodd dogfennau a oedd yn cynnwys data personol sensitif eu colli mewn lleoliad gwrandawriad Addasrwydd i Ymarfer. Mewn dau achos, penderfynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth beidio â chymryd unrhyw gamau rheoleiddio ac rydym yn aros am y canlyniad yn y trydydd achos.
- 145 Rydym yn cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o'r risgiau sy'n ein hwynebu o ran diogelwch gwybodaeth ac yn ei adolygu'n rheolaidd. Rydym yn parhau i roi ein cynllun gwella diogelwch gwybodaeth ar waith, wedi'i fapio i safon ansawdd ISO27001, er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau mwyaf a gwella aeddfedrwydd ein rheolaethau.
- 146 Rydym wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn rhannu ein cynllun gwella a'r cynnydd rydym wedi'i wneud hyd yma. Er bod angen i ni wneud rhagor o welliannau o hyd, mae'r drafodaeth â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'i hasesiad o ddau o'r achosion o ddatgelu data heb awdurdod y rhoddwyd gwybod amdanynt eleni, yn rhoi hyder i ni ein bod yn

cymryd camau priodol a chymesur i leihau'r risg ac effaith achosion o dorri rheolau diogelwch gwybodaeth. Gwahoddwyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gynnal adolygiad o'r risg i wybodaeth er mwyn nodi gwelliannau y gallwn eu gwneud er mwyn cydymffurfio ag wyth egwyddor trin gwybodaeth yn dda o dan Ddeddf Diogelu Data 1988 a byddwn yn gweithredu ar yr argymhellion yn 2015-2016.

Risgiau a materion allweddol yr aethpwyd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn

- 147 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor a'r Weithrediaeth wedi cymryd camau i fynd i'r afael â risgiau a gwendidau mewn rheolaethau mewn meysydd allweddol fel y nodir isod.
- 148 Yn dilyn datgeliad a wnaed o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban yr NMC, comisiynodd y Weithrediaeth adolygiad ymchwiliol arbennig gan y gwasanaeth archwilio mewnol. Nododd yr adolygiad hwn dystiolaeth o lwgrwobrwyo a llygredd ac osgoi rheolaethau. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y sefydliad wedi dioddef colled ariannol sylweddol o ganlyniad i'r camau gweithredu hyn. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod i'r heddlu am yr achosion hyn, yn ogystal â Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban. Cymerwyd camau priodol mewn perthynas â'r unigolion a'r cyflenwyr a oedd yn gysylltiedig â'r achosion. Nododd ymchwiliad y gwasanaeth archwilio mewnol fod lle i wella prosesau TGCh a phrosesau caffael a monitro contractau ehangach, yr ydym yn mynd i'r afael â hwy drwy raglen wella gynhwysfawr.

TGCH

- 149 Yn sgil yr adolygiad hwn ac adolygiadau eraill, penodwyd Prif Swyddog Technoleg a thîm dros dro i gynnal asesiad manwl o'r swyddogaeth TGCh. Mae'r Prif Swyddog Technoleg wedi datblygu cynllun gwella TGCh cynhwysfawr er mwyn gwella aeddfedrwydd pob agwedd ar y swyddogaeth TGCh a gosod y sylfeini ar gyfer newid gweddnewidiol erbyn diwedd 2015. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd llywodraethu TGCh, gallu ac adnoddau, darparu gwasanaethau, saernïaeth TGCh a chaffael a rheoli contractau. Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn adolygu cynnydd yn erbyn y cynllun gwella bob wythnos ac mae'r Cyngor yn craffu ar gynnydd ym mhob cyfarfod.

Cyllid a chaffael

- 150 Comisiynwyd adolygiad archwilio mewnol arbennig o reolaethau gwrth-dwyll ar ôl i weithgaredd twyllodrus gwerth isel a oedd yn ymwneud â'r gyflogres gael ei ddatgelu. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll i staff, a ddatblygwyd gyda mewnbyn gan arbenigwyr ym maes twyll o'r gwasanaeth archwilio mewnol, yn cael ei roi ar waith yn ystod 2015-2016.
- 151 Mae camau gweithredu brys i fynd i'r afael â materion caffael a rheoli contractau, gan gynnwys ym maes TGCh, a'r argymhellion a ddeilliodd o'r adolygiad gwrth-dwyll, wedi'u hymgorffori mewn rhaglen gwella cyllid gynhwysfawr. Mae'r rhaglen hefyd yn mynd i'r afael â gwendidau mewn prosesau caffael a nodwyd drwy archwiliad wedi'i gynllunio o reolaethau ariannol allweddol. Mae elfennau sylweddol o'r rhaglen wella eisoes ar waith a disgwylir i waith pellach i fynd i'r afael â gwendidau mewn rheolaethau ac ymgorffori dull gwelliant parhaus gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2016.

Goruchwylio a rheoleiddio bydwreigiaeth

- 152 Yn dilyn adroddiad gan Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO)³¹ a nododd achos posibl o wrthdaro buddiannau yn y fframwaith cyfreithiol presennol sy'n rheoli'r gwaith o oruchwylio a rheoleiddio bydwreigiaeth, comisiynodd y Cyngor adolygiad annibynnol.³² Derbyniodd y Cyngor yr argymhellion a ddeilliodd o'r adroddiad hwnnw y dylid diwygio'r broses o reoleiddio bydwreigiaeth. Gwnaethom groesawu'r sicrwydd a roddwyd gan yr Adran Iechyd y caiff y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol eu gweithredu cyn gynted â phosibl. Ynghyd â'r Adran Iechyd a Phrif Swyddogion Nyrsio ym mhedair gwlad y DU, rydym yn ymrwymedig i sicrhau y rhoddir cymorth priodol yn ystod y cyfnod pontio.
- 153 Ochr yn ochr â'r materion a ysgogodd adroddiad yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd ac yn gysylltiedig â hwy, rydym yn mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad yr Ymchwiliad i wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Prifysgol Bae Morecambe rhwng mis Ionawr 2004 a mis Mehefin 2013.³³ Mae hyn yn cynnwys:
- 153.1 Ymchwilio ymhellach i ymddygiad aelodau cofrestredig a oedd yn ymwneud â gofalu am gleifion yn ystod y cyfnod yr ymchwiliad;
- 153.2 Llunio canllawiau ar ddyletswydd broffesiynol gonestrwydd ar y cyd â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol er mwyn egluro ac atgyfnerthu dyletswydd staff proffesiynol i roi gwybodaeth am bryderon ynghylch gwasanaethau clinigol, yn enwedig pan fyddant yn ymwneud â diogelwch cleifion;
- 153.3 Sicrhau yr ymdrinnir â methiant i roi gwybod am bryderon o'r fath yn ein prosesau addasrwydd i ymarfer, fel y bo'n briodol.
- 154 At hynny, gwnaethom gymryd camau prydlon i ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau pan ddaeth pryderon i'r amlwg ynghylch ymarfer bydwreigiaeth ar ynys Guernsey. Cynhaliwyd adolygiad eithriadol o'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ym mis Hydref 2014³⁴ ac rydym yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu a luniwyd gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Guernsey a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ac yn cefnogi ymdrechion i wella diogelwch cleifion. Cyhoeddwyd adroddiad ar ein canfyddiadau ar bryderon ehangach ynghylch gofal iechyd a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad er budd y cyhoedd ac fel y gallai camau gael eu cymryd gan y rhai sydd yn y sefyllfa i wneud hynny. Canmolodd yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yr arweiniad a roddwyd gennym wrth fynd i'r afael â'r materion hyn.
- 155 Ymhlith y risgiau a'r materion eraill yr aethpwyd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn roedd:
- 155.1 Sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau er mwyn cyflawni ein dyletswydd statudol gyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd. Ym mis Hydref 2014 cytunodd y Cyngor, yn seiliedig ar gost gweithgarwch rheoleiddio, i gynyddu'r ffi

³¹ Midwifery supervision and regulation: recommendations for change (yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd, 2013)

³² Review of Midwifery Regulation in the UK, Cronfa'r Brenin (NMC, Ionawr 2015)

³³ Yr Adran Iechyd, 2015

³⁴ Extraordinary Review report, LSA Guernsey (NMC, 2014)

gofrestru flynyddol i £120 am gofrestriadau yn weithredol o fis Chwefror 2015. Mae rhaglen effeithlonrwydd yn cael ei datblygu er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon ymhellach.

- 155.2 Atgyfnerthu rheolaethau er mwyn helpu i gynnal uniondeb y gofrestr, gan gynnwys cyflwyno prawf cymhwysedd mewn dwy ran ar gyfer ymgeiswyr newydd a hyfforddwyd y tu allan i ardal yr UE/AEE.
- 155.3 Llwyddo i gyflawni ein targed perfformiad allweddol gyfer addasrwydd i ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, gan fodloni amod a osodwyd gan yr Adran Iechyd ar gyfer y grant a roddwyd yn 2013. Roedd hyn yn cynnwys rheoli proses ddidrafferth i adleoli ein lleoliad gwrandawiaadau i safle newydd yn ystod cyfnod hanfodol bwysig.
- 155.4 Bwrw ymlaen â'n rhaglen i roi'r model ail-ddilysu ar waith a symud i'r cam profi cynlluniau peilot yn ystod 2015, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ac arweinwyr y proffesiynau yn y pedair gwlad.

Pwyllgor Archwilio

- 156 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Cyngor wedi hysbysu'r Cyngor am gryfder y sicrwydd sydd ar gael, gan gynnwys uwchgyfeirio risgiau a phroblemau fel y bo'n briodol megis y rhai sy'n ymwneud â'r swyddogaethau Cyllid a TGCh, a'r strategaeth Sicrhau Ansawdd. At hynny, ymhlith y materion yr aethpwyd i'r afael â hwy gan y Pwyllgor roedd:
 - 156.1 Adolygu adroddiadau ac ymatebion rheolwyr i adroddiadau archwilio allanol.
 - 156.2 Adolygu'r adroddiad blynyddol a chyfrifon statudol a'r adroddiad blynyddol statudol ar addasrwydd i ymarfer ac argymell y dylai'r Cyngor eu cymeradwyo.
 - 156.3 Adolygu'r polisi a'r fframwaith rheoli risg diwygiedig a'r modd y cânt eu hymgorffori.
 - 156.4 Cymeradwyo cynllun gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer 2014-2015; ystyried ymatebion rheolwyr i adolygiadau archwilio mewnol; a goruchwyllo'r camau a gymerir gan reolwyr i fynd i'r afael ag argymhellion archwilwyr mewnol nas gweithredwyd neu eu cau.
 - 156.5 Cynnal adolygiad cyfnodol o effeithiolrwydd gwaith archwilio mewnol.
 - 156.6 Adolygu cynnydd o ran gweithredu'r strategaeth sicrhau ansawdd gorfforaethol a cheisio sicrwydd pellach ynglŷn â hyn. O fis Chwefror 2015, cyflwyno archwiliad manwl o drefniadau pob cyfarwyddiaeth weithredol ar gyfer ymdrin â risg, ansawdd a gwelliant parhaus.
 - 156.7 Adolygu'r gofrestr o ddigwyddiadau difrifol ac achosion o ddatgelu data heb awdurdod a'r camau sy'n cael eu cymryd i'w hatal rhag digwydd eto.
 - 156.8 Adolygu pob gweithred tendr sengl er mwyn sicrhau ei hun bod y Weithrediaeth yn dilyn prosesau priodol.

Barn flynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2014–2015

- 157 Cynhaliwyd 14 o aseiniadau archwilio mewnol wedi'u cynllunio yn ystod y flwyddyn yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Archwilio, yr oedd pedwar ohonynt yn rhai cynghorol a 10 yn archwiliadau. Fel y nodwyd uchod, roedd y gwaith archwilio ychwanegol a gomisiynwyd yn cynnwys adolygiad o TG (ITIL³⁵) a dau ymchwiliad – y naill i brosesau cyflogres a'r llall i brosesau caffael TG.
- 158 Nododd y rhan fwyaf o'r aseiniadau archwilio wedi'u cynllunio naill ai bod rheolaethau da ar waith neu fod rhai gwendidau yr oedd angen cymryd camau i'w hunioni; canfu un aseiniad archwilio wedi'i gynllunio a oedd yn ymwneud â chasglu a rheoli gwybodaeth data wendidau sylweddol. Derbyniwyd pob un o argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ac mae sylw yn cael ei roi iddynt, gyda'r broses o'u gweithredu yn cael ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Archwilio.
- 159 Nododd adroddiad blynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod y canlynol yn faterion allweddol: rheoli gwendidau sy'n ymwneud â'r gyflogres; systemau prynu; caffael a rheoli contractau; seilwaith TGCh a goruchwyllo'r prif ddarparwr gwasanaethau TGCh. Barn flynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw bod

"... some risk that the system of internal control, governance and risk management will fail to meet management's objectives - in some areas there are adequate and effective systems of governance, but there are also some specific areas of significant risk. Significant improvements are required in specific areas to improve the adequacy and/or effectiveness of governance, risk management and internal control.

In all cases, management have taken prompt action to investigate and implement changes to internal controls and processes."

Asesiad cyffredinol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd

- 160 Fel Cadeirydd y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, rydym wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol. Wrth wneud hynny, rydym wedi dibynnu ar farn ac adroddiadau Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, yn ogystal ag amrywiaeth o ffynonellau sicrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau cyfarwyddwyr o ansawdd rheolaethau a sicrwydd sydd ar waith yn y cyfarwyddiaethau gweithredol y maent yn gyfrifol amdanynt; yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg; gwahanol adolygiadau mewnol ac allanol, gan gynnwys adolygiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol o berfformiad; barn a llythyr rheoli archwilwyr allanol; a'r adolygiad allanol o gynnydd yn erbyn adolygiad strategol 2012 yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Rhoddodd y Pwyllgor Archwilio sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn ag effeithiolrwydd ein trefniadau. Mae'r Pwyllgor wedi nodi ei fod o'r farn bod cynnydd da wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf o ran atgyfnerthu ansawdd, dibynadwyedd a chyflawnder y sicrwydd sydd ar gael drwy gyfuniad o fwy o dryloywder a mwy o waith craffu a goruchwyllo gan y Weithrediaeth, y Pwyllgor a'r Cyngor.
- 161 Yn ein barn ni, mae trefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol yn gweithredu'n ddigon da ar y cyfan, ac eithrio yn y meysydd pwysig a nodwyd gan

³⁵ Llyfrgell Seilwaith Technoleg Gwybodaeth gynt

farn flynyddol y gwasanaeth archwilio mewnol (paragraff 159 uchod). Mae sylw yn cael ei roi i'r rhain fel prif flaenoriaeth fel y trafodwyd ym mharagraffau 149 i 151 uchod a bydd y gwaith yn parhau yn 2015-2016 fel y nodir isod.

Materion a risgiau allweddol yn y dyfodol

- 162 Rydym yn bwriadu parhau i ganolbwyntio'n glir ar atgyfnerthu trefniadau llywodraethu, rheolaethau mewnol a phrosesau rheoli risg yn ystod y flwyddyn i ddod, yn enwedig mewn perthynas â'r swyddogaeth TGCh, cyllid, caffael a rheoli contractau. Ymhlith y materion a'r risgiau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o adolygiadau mewnol ac allanol; gwaith archwilio mewnol; ac adolygiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol o berfformiad ar gyfer 2014-2015 rydym yn parhau i'w rheoli'n ofalus wrth fynd ymlaen mae:
- 162.1 Gwaith parhaus i wella cywirdeb ac uniondeb y gofrestr.
- 162.2 Atgyfnerthu ein dull o reoli gwybodaeth am risgiau rheoliadol sy'n ymwneud â lleoliadau gofal iechyd drwy sefydlu prosesau newydd ar gyfer goruchwyllo a gwerthuso gwybodaeth am leoliadau sy'n wynebu risg a gweithredu ar y wybodaeth honno, gan gynnwys gweithio'n agosach gyda rheoleiddwyr systemau er mwyn gwneud hynny.
- 162.3 Gwella ein dealltwriaeth o'n gweithlu a buddsoddi ynddo er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau uchel o drosiant staff rydym yn eu hwynebu, gan gynnwys drwy gymryd camau wedi'u targedu lle mae trosiant staff uchel yn peri'r risgiau mwyaf i'r sefydliad. Rydym hefyd yn bwriadu adolygu gallu ein gweithlu i ddiwallu anghenion y sefydliad yn y dyfodol.
- 162.4 Parhau i weithredu ac ymgorffori ein cynllun gwella diogelwch gwybodaeth ac argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y disgrifiwyd uchod (paragraffau 145-146).
- 162.5 Sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcan i ddarparu system ail-ddilysu effeithiol erbyn mis Rhagfyr 2015, drwy weithio'n agos gyda'r byrddau rhaglenni yn y pedair gwlad a sicrhau y cynhelir gwerthusiad annibynnol o effaith a pharodrwydd y system, yn ogystal â chael sicrwydd mewnol ynglŷn â'i pharodrwydd er mwyn llywio penderfyniad terfynol y Cyngor ynghylch pryd i fwrw ati.
- 162.6 Sicrhau bod y broses o ddileu goruchwyliaeth bydwreigiaeth o'n deddfwriaeth yn mynd rhagddi'n ddiraffferth a, thra'n aros am y newid deddfwriaethol gofynnol, fod y fframwaith rheoleiddio a goruchwyllo presennol yn cael ei gefnogi er mwyn iddo weithredu'n effeithiol.
- 162.7 Parhau i fuddsoddi yn ein swyddogaethau addasrwydd i ymarfer a chynnal a gwella ein gwasanaeth cwsmeriaid, ein prosesau ac ansawdd ac amseroldeb y broses o ddatrys achosion ymhellach. Mae hyn yn cynnwys parhau i ymgysylltu â'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill er mwyn annog cyflwyno darpariaethau deddfwriaethol mwy hyblyg a syml a fydd yn ein galluogi i gymryd camau i ddiogelu'r cyhoedd yn gynt ac yn fwy effeithiol.
- 162.8 Rhoi rhaglen waith barhaus, helaeth ar waith er mwyn gwneud y newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i Gyfarwyddeb yr UE ar Gydabod

Cymwysterau Proffesiynol ein Gilydd heb amharu ar ein trefniadau ar gyfer diogelu'r cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys rhoi system newydd o reolaethau iaith ar waith yn dilyn newidiadau deddfwriaethol.

- 163 Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr NMC yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr NMC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Y Fonesig Janet Finch
Cadeirydd
NMC
28 Hydref 2015

Jackie Smith
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
NMC
28 Hydref 2015

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Dim ond i aelodau'r elusen, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol ag Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu'r Cyngor o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu ohonynt mewn Adroddiad Archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor (Ymddiriedolwyr) a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fe'n penodwyd yn archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac rydym yn cyflwyno adroddiadau yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 154 ac adran 44 o'r Ddeddfau hynny yn y drefn honno. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a llunio barn arnynt yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Ceir disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditscopeukprivate

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2015 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r ffordd y cymhwyswyd adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;

- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd).

Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad

Nid oes dim gennym i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2011 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os credwn fod y canlynol yn wir:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gydnaws â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

haysmacintyre
Archwilwyr Statudol

26 Red Lion Square
London
WC1R 4AG

28 Hydref 2015

Mae haysmacintyre yn gymwys i weithredu fel archwilydd yn unol â thelerau adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y 'Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd', y Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Fel rhan o hyn asesir y canlynol: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Darllenaf hefyd yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn anghywir mewn ffordd berthnasol yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad, neu'n anghyson mewn ffordd berthnasol â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2015 ac o'i adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd yn ôl y gofynion hynny.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adolygiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad

Nid oes angen i mi gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r materion canlynol y'ch hysbysaf ohonynt os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni dderbyniwyd datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth i'w harchwilio yn gydnaws â'r cofnodion na'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Syr Amyas C E Morse

Dyddiad: 29 Hydref 2015

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

		Cronfeydd digyfyngiad 2015	Cronfeydd cyfyngedig 2015	Cyfanswm cronfeydd 2015	Cyfanswm cronfeydd 2014
	Nodyn	£'000	£'000	£'000	£'000
Adnoddau i mewn					
Adnoddau a ddaeth i mewn o weithgareddau elusennol:					
• Incwm ffioedd	3	69,921	–	69,921	62,772
Adnoddau a ddaeth i mewn o gronfeydd a gynhyrwyd:					
• Incwm buddsoddiadau	2	554	87	641	983
• Grant (Yr Adran Iechyd)	27	–	2,642	2,642	1,438
Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd		70,475	2,729	73,204	65,193
Adnoddau a wariwyd					
Gweithgareddau elusennol	4	62,525	8,703	71,228	66,413
Costau llywodraethu	5	3,466	–	3,466	2,975
Adnoddau eraill a wariwyd:					
• Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd	6	1,722	–	1,722	1,202
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd		67,713	8,703	76,416	70,590
Adnoddau (sy'n mynd allan)/sy'n dod i mewn net o weithrediadau cyn trosglwyddiadau		2,762	(5,974)	(3,212)	(5,397)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		504	(504)	–	–
Adnoddau (sy'n mynd allan)/sy'n dod i mewn net cyn enillion eraill		3,266	(6,478)	(3,212)	(5,397)
Enillion cydnabyddedig eraill					
Ennill nas gwiredwyd wrth ailbriso asedau sefydlog		–	–	–	3,741
Symudiad net mewn cronfeydd		3,266	(6,478)	(3,212)	(1,656)
Cronfeydd wrth gefn a ddygwyd ymlaen		40,868	12,000	52,868	54,524
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen		44,134	5,522	49,656	52,868

Deilliodd holl weithgareddau'r Cyngor yn y ddwy flwyddyn ariannol uchod o weithrediadau parhaus. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod. Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 72 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Y Fantolen ar 31 Mawrth 2015

		2015	2014
	Nodyn	£'000	£'000
Asedau sefydlog			
Asedau diriaethol	13	<u>23,997</u>	<u>23,753</u>
Cyfanswm asedau sefydlog		<u>23,997</u>	<u>23,753</u>
Asedau cyfredol			
Dyledwyr	15	2,137	1,157
Adneuon byrdymor	25	62,100	67,100
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	25	<u>14,562</u>	<u>11,150</u>
Cyfanswm asedau cyfredol		78,799	79,407
Rhwymedigaethau cyfredol			
Credydwyr (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn)	16	(51,491)	(49,287)
Darpariaethau (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn)	17	<u>(428)</u>	<u>(325)</u>
Asedau cyfredol net		26,880	29,795
Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		50,877	53,548
Credydwyr (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn)	18	(504)	(105)
Darpariaethau (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn)	19	(717)	(575)
Asedau net		<u><u>49,656</u></u>	<u><u>52,868</u></u>
Cronfeydd cyfyngedig	27	5,522	12,000
Cronfeydd digyfyngiad		<u>44,134</u>	<u>40,868</u>
Cyfanswm y cronfeydd		<u><u>49,656</u></u>	<u><u>52,868</u></u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 53-72 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Y Fonesig Janet Finch
Cadeirydd
NMC
28 Hydref 2015

Jackie Smith
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
NMC
28 Hydref 2015

Datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

	Nodyn	£'000	2015 £'000	2014 £'000
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu	23		1,492	4,376
Elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid				
Llog a gafwyd	2	641		983
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol				
Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol	13	(3,721)		(2,521)
			<u>(3,080)</u>	<u>(1,538)</u>
Cynnydd mewn arian parod yn y flwyddyn			<u>(1,588)</u>	<u>2,838</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 72 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Polisiâu cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Penderfyniad ynglŷn â'r Cyfrifon (gweler Atodiad 1) gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r *Datganiad o Ymarfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau* (SoRP Elusennau 2005) a bod y cyfrifon wedi rhoi sylw i ofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn egluro gofynion SoRP Elusennau neu'n adeiladu arnynt.

a) Confensiwn cyfrifyddu

Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd i gynnwys ailbrisió rhai asedau sefydlog.

b) Asedau sefydlog

Dibrisir asedau sefydlog diriaethol er mwyn gostwng eu gwerth nominal i £1 dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig mewn rhandaliadau cyfartal fel a ganlyn:

Cyfarpar	- rhwng tair a phum mlynedd
Dodrefn	- 10 mlynedd
Ailwampio - 23 Portland Place	- 10 mlynedd
Safle lesddaliad - 23 Portland Place	- 50 mlynedd
Safle lesddaliad - 61 Aldwych	- 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles)
Eiddo lesddaliadol - Clarendon House -Llawr Daear	- 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles)
Eiddo lesddaliadol - Clarendon House -Llawr cyntaf	- 2 flynedd (dros gyfnod y brydles)
Eiddo lesddaliadol - 1 Kemble Street	- 8.5 mlynedd (dros gyfnod y brydles)
Eiddo lesddaliadol – 20 Old Bailey	- 23 mis (dros gyfnod y brydles) 9.7 blynedd (dros gyfnod y brydles)
Eiddo ar brydles – 2 Stratford Place	- brydles)
Prosiectau TG	- rhwng tair a phum mlynedd

Cyfalafwyd asedau sefydlog diriaethol sy'n werth dros £1,000.

Mae'r NMC yn ailbrisió ei eiddo lesddaliadol bob pum mlynedd gan gynnal adolygiad interim o'r lleihad mewn gwerth yn y drydedd flwyddyn yn unol ag FRS15, ac ailbrisiad interim yn y cyfamser lle mae'n debygol y bu newid perthnasol mewn gwerth.

c) Adnoddau sy'n codi - incwm

Incwm buddsoddiadau

Rhoddir cyfrif am incwm buddsoddiadau pan fo'n dderbyniadwy ac mae'n cynnwys unrhyw dreth gysylltiedig y gellir ei hadennill. Datgelir incwm buddsoddiadau mewn perthynas â grantiau a gafwyd fel incwm buddsoddiadau cyfyngedig.

Incwm o weithgareddau elusennol

Dyrannwyd ffioedd cyfnodol i'r flwyddyn ariannol briodol yn seiliedig ar y cysyniad o groniadau. Mae a wnelo ffioedd cyfnodol ag adnewyddu neu gynnal statws cofrestru yn flynyddol. Credydwyd ffioedd cofrestru a dilysu eraill i'r incwm ar y diwrnod derbyn.

ch) Dyrannu costau

Mae costau gweithredu'r NMC yn cynnwys costau staff, costau eiddo a chostau cysylltiedig eraill. Dyrennir costau o'r fath rhwng gwariant elusennol uniongyrchol, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd a llywodraethu. Dyrennir costau staff yn ôl costau staff sy'n gweithio'n uniongyrchol yn yr adrannau perthnasol. Dyrennir costau eiddo yn unol â defnydd a niferoedd staff ym mhob adran a dosrennir costau TGCh a chostau eraill i adrannau ar sail briodol (er enghraifft, niferoedd staff).

Gweithgareddau elusennol

Ymhlith y gwariant ar weithgareddau elusennol mae'r holl wariant sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r elusen sy'n cynnwys hyrwyddo safonau a datblygu polisïau, addysg, cynnal y gofrestr ac addasrwydd i ymarfer.

Costau llywodraethu

Mae costau llywodraethu yn ymwneud â gwariant yr eir iddo wrth reoli asedau'r NMC, gweinyddu'r sefydliad a chydymffurfio â gofynion statudol.

Gwariant arall

Mae gwariant arall yn cynnwys:

Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd

Mae costau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ymwneud â chostau'r adran Gyfathrebu, y mae'r prif elfennau ohonynt yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwaith gyda senedd y DU a senedd Ewrop, cynadleddau a digwyddiadau, cysylltiadau â'r cyfryngau a gwariant ar gyhoeddiadau'r NMC.

d) Costau datblygu

Caiff costau mewnol yr aed iddynt wrth ddatblygu meddalwedd eu dileu yn y flwyddyn yr eir iddynt.

dd) Cyfrifyddu cronfeydd

Mae'r Cyngor yn cadw amryw fathau o gronfeydd fel a ganlyn:

i) Cronfeydd cyfyngedig

Mae'r rhain yn gronfeydd a ddefnyddir yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr. Amlinellir nod pob cronfa gyfyngedig a'r defnydd a wneir ohoni yn nodyn 27 i'r datganiadau ariannol.

ii) Cronfeydd anghyfyngedig

Mae'r cronfeydd hyn ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor i hyrwyddo amcanion cyffredinol y sefydliad ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

e) Asedau ar brydles

Codir rhenti sy'n gymwys i brydlesau gweithredol, lle mae holl fuddiannau a risgiau perchenogaeth yn perthyn i'r prydleswr i raddau helaeth, i'r datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cyfartal dros gyfnodau'r prydlesau.

f) Costau pensiwn

Darperir buddiannau pensiwn drwy gynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig. Ariennir y ddau gynllun drwy gyfraniadau gan yr NMC a chyflogeion. Gwneir taliadau i ymddiriedolaethau pensiwn, sydd ar wahân i'r NMC yn ariannol.

Gwneir taliadau i'r cynllun buddiannau diffiniedig yn unol â chyfrifiadau cyfnodol gan actiwarïaid sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol, a chyfrifir am gostau pensiwn y cynllun buddiannau diffiniedig ar sail codi cost ddisgwylidig darparu pensiynau dros y cyfnod y mae'r NMC yn cael budd o wasanaeth y cyflogeion. Lledaenir effaith amrywiadau i gostau rheolaidd dros gyfnod o amser a bennir gan yr ymddiriedolaeth bensiwn.

Gwneir taliadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig ar sail cyfraniadau canrannol penodedig gan yr NMC a chyflogeion, a chodir y costau i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi.

2. Incwm buddsoddiadau

	Digyfyngiad £'000	Cyfyngedig £'000	2015 £'000	2014 £'000
Llog derbyniadwy				
• o adneuon mewn banciau	554	87	641	983
	<u>554</u>	<u>87</u>	<u>641</u>	<u>983</u>

3. Incwm ffioedd

	2015 £'000	2014 £'000
Ffioedd cyfnodol	68,437	61,483
Cofrestru	1,327	1,170
Dilysu	124	119
Prawf cymhwysedd	33	0
	<u>69,921</u>	<u>62,772</u>

4. Gweithgareddau elusennol

	Digyfyngiad £'000	Cyfyngedig £'000	2015 £'000	2014 £'000
Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau	3,682	-	3,682	1,880
Addysg	1,821	-	1,821	1,650
Cynnal y gofrestr	6,733	1,759	8,492	7,539
Addasrwydd i ymarfer	50,289	6,944	57,233	55,344
	<u>62,525</u>	<u>8,703</u>	<u>71,228</u>	<u>66,413</u>

Mae'r costau hyn yn cynnwys costau uniongyrchol,³⁶ costau staff a gorbenion cysylltiedig.

5. Costau llywodraethu

	2015 £'000	2014 £'000
Lwfansau, costau teithio, cynhaliaeth a hyfforddiant aelodau	272	313
Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - haysmacintyre	26	25
Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	5	5
Dyrannu costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau) ³⁷	3,163	2,632
	<u>3,466</u>	<u>2,975</u>

6. Gwariant arall - Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd

	2015 £'000	2014 £'000
Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd	122	70
Cyfathrebu	99	76
Argraffu a dosbarthu cyhoeddiadau'r NMC	550	256
Dyrannu costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau) ³⁸	951	800
	<u>1,722</u>	<u>1,202</u>

³⁶ Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 8.

³⁷ Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 1d).

³⁸ Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 1d).

7. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd

	Costau staff £'000	Dibrisiant £'000	Costau eraill £'000	Cyfanswm 2015 £'000	Cyfanswm 2014 £'000
Gweithgareddau elusennol:					
• Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau	1,722	66	1,894	3,682	1,880
• Addysg	481	46	1,294	1,821	1,650
• Cynnal y gofrestr	4,540	249	3,703	8,492	7,539
• Addasrwydd i ymarfer	20,144	2,915	34,174	57,233	55,344
Costau llywodraethu	2,245	107	1,114	3,466	2,975
Gwariant arall:					
• Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd	672	41	1,009	1,722	1,202
	<u>29,804</u>	<u>3,424</u>	<u>43,188</u>	<u>76,416</u>	<u>70,590</u>

8. Dadansoddi costau uniongyrchol

	Costau uniongyrch- ol £'000	Costau cymorth £'000	Cyfanswm 2015 £'000	Cyfanswm 2014 £'000
Gweithgareddau elusennol:				
• Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau	3,347	335	3,682	1,880
• Addysg	1,590	231	1,821	1,650
• Cynnal y gofrestr	7,239	1,253	8,492	7,539
• Addasrwydd i ymarfer	51,024	6,209	57,233	55,344
Is-gyfanswm gweithgareddau elusennol	<u>63,200</u>	<u>8,028</u>	<u>71,228</u>	<u>66,413</u>
• Llywodraethu	3,306	160	3,466	2,975
• Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd	1,514	208	1,722	1,202
Cyfanswm	<u>68,020</u>	<u>8,396</u>	<u>76,416</u>	<u>70,590</u>

9. Dadansoddi costau cymorth

Cost cymorth	Hyrwyddo safonau a datblygu polisiau	Addysg	Cynnal y gofrestr	Addasrwydd i ymarfer	Llywodraethu	Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd	Cyfanswm 2015	Cyfanswm 2014
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyfleusterau	27	18	99	493	13	17	667	672
Cyllid	84	58	315	1,559	40	52	2,108	1,778
Adnoddau Dynol	100	69	375	1,859	48	62	2,513	2,481
TGCh	124	86	464	2,298	59	77	3,108	2,313
	335	231	1,253	6,209	160	208	8,396	7,244

Dyrannwyd y costau cymorth ar sail nifer y staff ym mhob maes.

10. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd yn ôl dosbarthiad naturiol

	2015 £'000	2014 £'000	Manylion (gweler y dudalen nesaf)
Cyflogau a chostau cysylltiedig	29,804	24,188	10.1
Costau staff eraill	1,055	1,443	10.2
Safleoedd	3,524	3,699	10.3
Yswiriant	142	141	
Eitemau amrywiol, dodrefn, cyfarpar a gwaith cynnal a chadw	244	198	
Llogi cyfarpar	10	3	
Addasrwydd i ymarfer	25,513	26,674	10.4
Apeliadau Cofrestru	112	92	
Dibrisiant	3,424	2,900	10.5
Colled ar waredu cyfarpar	53	0	
Dadfeiliadau	312	264	
Arlwyo ar gyfer gwrandawiaadau a chyfarfodydd addasrwydd i ymarfer	675	705	
Ffreutur y staff	115	126	
Cost sicrhau ansawdd addysg	1,119	1,056	10.6
Ffioedd proffesiynol	3,880	3,329	10.7
Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio	26	25	
Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio (Swyddfa Archwilio Genedlaethol)	5	5	
Cydnabyddiaeth yr archwilwyr - costau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio	0	0	
Datblygu TG a chymorth TG	3,141	2,780	10.8
Tâl postio	894	923	
Cost argraffu a deunydd ysgrifennu	556	481	
Hysbysebu a recriwtio	307	374	10.9
Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd	122	70	10.10
Argraffu a dosbarthu cyhoeddiadau'r NMC	550	256	10.11
Lwfansau, costau teithio a chynhaliadau aelodau	272	313	
Costau pwyllgorau	21	18	
Costau cymorth eraill	540	527	10.12
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	76,416	70,590	

Manylion ychwanegol ar gyfer y tabl yn nodyn 10

10.1 Cyflogau a chostau cysylltiedig

Manylir ar y costau hyn yn Nodyn 11 i'r cyfrifon.

Mae costau cyflogau staff wedi cynyddu yn 2014-2015 o ganlyniad i gynnydd yn nifer y staff a gyflogir a lefelau cyflog uwch o flwyddyn i flwyddyn. Cynyddodd nifer y staff yn bennaf ym maes Addasrwydd i Ymarfer er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni targed ein

DPA o ran dyfarnu Addaswydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014 a darparu ar gyfer y cynnydd parhaus yn y llwyth achosion yn yr adran.

Rhoddwyd ail gam yr adolygiad o gyflogau a graddfeydd y sefydliad cyfan ar waith o fis Tachwedd 2014, a gododd lefel cyflog pob aelod o staff cymwys fel ei fod o fewn 10 y cant i lefel ganolrifol wedi'i meincnodi'r farchnad. Dilynodd hyn ddyfarniad cyflog o 2.5 y cant a roddwyd i staff cymwys yn weithredol o 1 Ebrill 2014.

Cynyddodd costau pensiwn o flwyddyn i flwyddyn yn sgil cyflwyno system o awto-gofrestru pob aelod cymwys o staff ar gyfer y cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig o 1 Ebrill 2014.

Cafodd staff dros dro eu cyflogi'n bennaf ym maes Addaswydd i Ymarfer, er mwyn llenwi swyddi gwag a oedd i'w priodoli i drosiant staff a hefyd helpu i gyflawni'r targedau Addaswydd i Ymarfer. Defnyddiwyd adnodd contractwyr arbenigol hefyd ym mhob rhan o'r NMC, yn enwedig ym maes TGCh, ac er mwyn cefnogi prosiectau rheoleiddio penodol gan gynnwys datblygu prawf cymhwysedd ar gyfer unigolion o'r tu allan i'r AEE sy'n gwneud cais i gofrestru, a ariannwyd drwy grant gan yr Adran Iechyd.

10.2 Costau staff eraill

Mae costau staff eraill yn cynnwys costau teithio, costau hyfforddi a chostau datblygu staff.

Roedd costau teithio staff yn llai a gellir priodoli hyn i'r ffaith bod llai o ddiwrnodau gwrando Addaswydd i Ymarfer yn 2014-2015, gwell defnydd o leoliadau mewnol ar gyfer gwrandawiadau a gwell gwaith cynllunio adnoddau mewn perthynas â staff gwrandawiadau mewn lleoliadau yn y pedair gwlad.

Roedd buddsoddi mewn hyfforddi a datblygu staff yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol yn 2014-2015, er mwyn helpu i gadw a datblygu staff ym mhob rhan o'r sefydliad. Yn 2013-2014 cafodd hyfforddiant gorfodol i bob aelod o staff ar ymddygiadau'r NMC ei ddarparu ar yr un pryd ag y lanswyd ymddygiadau'r NMC; nid aed i gostau cymaradwy yn 2014-2015.

10.3 Safleoedd

Gellir priodoli'r gostyngiad yng nghostau eiddo i daliadau gwasanaeth is yn ein heiddo newydd ei brydlesu yn 2 Stratford Place o gymharu â'r costau hynny yr aed iddynt yn 20 Old Bailey, y gwnaethom ei adael ym Mis Tachwedd 2014.

10.4 Addaswydd i ymarfer

Ceir manylion am weithgarwch Addaswydd i Ymarfer yn ystod y flwyddyn yn yr adran o'r adroddiad blynyddol sy'n ymwneud ag adolygu perfformiad. Bu gostyngiad bach mewn costau o flwyddyn i flwyddyn a oedd yn cyd-fynd â'r gostyngiad yn nifer y diwrnodau gwrando yn 2014-2015, am fod angen cynnal llai o ddiwrnodau gwrando yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ar ôl cyflawni targed y DPA o ran dyfarnu Addaswydd i Ymarfer ym mis Rhagfyr 2014. Parhawyd i gyflawni arbedion o'r mesurau effeithlonrwydd a weithredwyd yn 2012-2013, sy'n cynnwys trefniadau amgen i

wrandawiadau llawn, ymdrin ag ymchwiliadau i achosion yn fewnol a lleihau costau ysgrifenyddol llaw-fer, yn ystod 2014-2015.

10.5 Dibrisiant

Mae'r tâl dibrisiant uwch i'w briodoli i flwyddyn lawn o ddibrisiant yn 2014-2015 sy'n ymwneud â'r gwaith o wella'r seilwaith TGCh, a gyfalafwyd yn weithredol o fis Rhagfyr 2013, a blwyddyn lawn o ddibrisiant ar gyfer y llawr cyntaf yn Clarendon House, nas cafwyd yn 2013-2014.

10.6 Costau sicrhau ansawdd addysg

Mae'r cynnydd mewn costau sicrhau ansawdd i'w briodoli i adolygiad eithriadol yr oedd angen ei gynnal ar Ynys Guernsey yn 2014-2015 a nifer uwch o ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer adolygwyr sicrhau ansawdd o gymharu â 2013-2014.

10.7 Ffioedd proffesiynol

Ceisiwyd cyngor proffesiynol a chyfreithiol allanol yn 2014-2015 er mwyn rhoi cymorth ac arweiniad mewn nifer o feysydd ar draws y sefydliad. Cyflogwyd ymgynghorwyr i lywio'r gwaith o brofi a threalu'r model ail-ddilysu, y prosesau cofrestru newydd ar gyfer ymgeiswyr o'r tu allan i'r AEE a'r rhaglen waith sy'n ymwneud â rhoi'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr ar waith. Cafwyd cyngor proffesiynol hefyd ar gyfer yr adolygiad allanol o weithgarwch rheoleiddio bydwreigiaeth, datblygu gwasanaethau ar-lein NMC, recriwtio'r Cadeirydd newydd ac adolygu cynnydd yn erbyn argymhellion adolygiad strategol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol a gynhaliwyd yn 2012.

10.8 Datblygu TG a chymorth TG

Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli'n bennaf i'r cynnydd yn nifer y defnyddwyr ym mhob rhan o'r NMC a'r angen cynyddol am adnoddau storio.

10.9 Hysbysebu a recriwtio

Mae'r gostyngiad i'w briodoli i'r defnydd o ddulliau mwy costeffeithiol o recriwtio ar-lein yn 2014-2015, gydag asiantaethau allanol ond yn cael eu defnyddio i helpu i recriwtio rolau arbenigol, a llai o angen i recriwtio i rolau lefel uwch.

10.10 Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd

Wrth i'r NMC geisio codi ei broffil cyhoeddus, aed i gostau uwch gyda phresenoldeb mewn nifer fwy o ddigwyddiadau yn ystod 2014-2015. At hynny, rhoddwyd cryn bwyslais ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch ail-ddilysu.

10.11 Argraffu a dosbarthu cyhoeddiadau'r NMC

Mae'r cynnydd i'w briodoli i gostau argraffu a dosbarthu'r Cod diwygiedig, yr anfonwyd copi ohono at bob nyrs a bydwraig gofrestredig yn 2014-2015.

10.12 Costau cymorth eraill

Mae costau cymorth eraill yn cynnwys costau ein system ffôn, costau cyfathrebu cyffredinol a thaliadau banc.

11. Gwybodaeth am gyflogeion

	2015	2014
	£'000	£'000
Cyflogau a chostau cysylltiedig		
Cyflogau: ³⁹		
• Rheoli	756	741
• Gweinyddu	17,284	15,275
Costau nawdd cymdeithasol (cyfraniadau YG cyflogeion):		
• Rheoli	93	87
• Gweinyddu	1,459	1,268
Costau pensiwn - staff presennol: ⁴⁰		
• Rheoli	155	147
• Gweinyddu	3,705	3,204
Costau pensiwn - staff ymdeoledig sefydliadau blaenorol ⁴¹	27	26
Staff dros dro a staff contractwyr	6,325	3,440
	29,804	24,188

Gwybodaeth am yr uwch dîm rheoli

Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfarwyddwyr. Roedd cyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

Bandiau cyflog (£)	2015 Nifer y staff	2014 Nifer y staff
100,001 - 110,000	-	1

³⁹ Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 10.1.

⁴⁰ Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 21.

⁴¹ Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 21.

110,001 - 120,000	3	3
120,001 - 130,000	2	1
130,001 - 140,000	-	-
140,001 - 150,000	-	-
150,001 - 160,000	-	-
160,001 - 170,000	1	1

Yn ystod y flwyddyn, roedd benthyciadau ar gyfer tocynnau tymor a roddwyd i gyfarwyddwyr fel a ganlyn:

	2015 £	2014 £
S Page	1,001-1,500	1,001-1,500
K Kolyva	3,500-4,000	3,500-4,000
A Sansome	5,001-5,500	4,500-5,000
J Billings	5,500-6,000	-
L Mallors	-	1,001-1,500

Roedd cyfanswm y pensiynau a gronwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2015 ar gyfer y cyfarwyddwyr hynny sy'n rhan o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yr NMC fel a ganlyn:

Cyfanswm y pensiynau a gronwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth (£)	2015 Nifer y staff	2014 Nifer y staff
0 - 5,000	2	3
5,001 - 10,000	-	1
10,001 - 15,000	1	-
15,001 - 20,000	-	-
20,001 - 25,000	1	1

Mae'r cyfarwyddwyr yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn yr NMC.

Yn ystod 2014–2015 gwnaed cyfraniadau cyflogwyr i'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar ran dau gyfarwyddwr, a oedd yn werth £8,245 (2013–2014: £0).

Darperir cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig drwy gynllun (cynllun pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig) a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited. Rhydd y cynllun fuddiannau ar sail 'cyflog terfynol' ar oedran ymddeol arferol o 60 oed. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, gall aelodau ddewis cyfnewid rhan o'u pensiwn am gyfandaliad di-dreth. Gallant hefyd dderbyn llai o bensiwn er mwyn darparu pensiwn i enwebai sy'n goroesi. Os bydd unigolyn yn marw o fewn pum mlynedd i'r adeg y gwnaeth ymddeol, telir cyfandaliad sy'n unol â balans y pensiwn y byddai'r pensiwnwr wedi'i gael petai wedi byw am bum mlynedd ar ôl ymddeol.

Os bydd aelod yn marw mewn gwasanaeth, mae cyfandaliad yn cyfateb i ddwywaith y cyflog pensiynadwy yn daladwy a chaiff holl gyfraniadau'r aelod eu dychwelyd ynghyd â llog di-dreth cyfansawdd o 3 y cant y flwyddyn. Os bydd cyflogai presennol yn marw a bod ganddo gymar sy'n goroesi, telir pensiwn sy'n 1/160 o'r cyflog pensiynadwy hefyd, am bob blwyddyn o wasanaeth y gallai'r aelod fod wedi'i chwblhau hyd at oedran pensiwn arferol.

Gellir ymddeol am resymau meddygol os bydd analluogrwydd parhaol. Yn yr achos hwn telir pensiynau ar unwaith heb unrhyw ostyngiad actiwaraid.

Mae'r NMC hefyd yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer ei staff drwy The People's Pension. Cyfrifir am y costau hyn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fyddant yn ddyledus. Cyfraniad sylfaenol y cyflogwr yn 2014-2015 oedd 4 y cant a chyfraniad sylfaenol staff oedd 1 y cant. Ni chaniateir i aelodau o staff fod yn aelodau o'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig.

Gwybodaeth arall am gyflogeion

Yn ogystal â'r uchod, roedd 23 (2014: 17) o aelodau eraill o staff yr oedd eu cydnabyddiaeth yn dod o dan y bandiau canlynol:

	2015	2014
	Nifer y staff	Nifer y staff
£60,001 - £70,000	9	8
£70,001 - £80,000	10	7
£80,001 - £90,000	3	1
£90,001 - £100,000	1	1

Cyflogwyd 545 o gyflogeion ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn (uwch dîm rheoli 6 ac aelodau eraill o staff 539) ac yn y flwyddyn flaenorol cyflogwyd 496 (uwch dîm rheoli 6 ac aelodau eraill o staff 490). Gellir priodoli'r cynnydd yn nifer y staff i'r angen am staff ychwanegol yn ein cyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer (gweler nodyn 10.1).

12. Trethu

O ganlyniad i'w statws elusennol nid oes rhaid i'r NMC dalu treth gorfforaeth ar ei weithgareddau elusennol. Nid oes rhaid iddo ychwaith dalu treth enillion cyfalaf ar unrhyw asedau a gaiff eu gwerthu lle y defnyddir yr elw at ddibenion elusennol.

13. Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen

	Dodrefn	Cyfarpar	23PP Safle lesddaliad hir Nodyn 13.1	23PP Adnewyddu adeilad	Adnewyddu Adeiladau AiY	Prosiectau TG Nodyn 13.2	Cyfanswm £'000
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost:							
1 Ebrill 2014	448	6,511	15,448	5,620	5,988	3,388	37,403
Ychwanegiadau	95	1,816	-	-	1,810	-	3,721
Gwarediadau		(312)			(1,297)		(1,609)
Ailbrisio	-	-	-	-	-	-	-
31 Mawrth 2015	<u>543</u>	<u>8,015</u>	<u>15,448</u>	<u>5,620</u>	<u>6,501</u>	<u>3,388</u>	<u>39,515</u>
Dibrisiant:							
1 Ebrill 2014	242	3,648	-	3,883	2,489	3,388	13,650
Tâl a godwyd am y flwyddyn	33	1,396	352	563	1,080	-	3,424
Wedi'u dileu wrth werthu		(259)			(1,297)		(1,556)
Addasiad ailbrisio	-	-	-	-	-	-	-
31 Mawrth 2015	<u>275</u>	<u>4,785</u>	<u>352</u>	<u>4,446</u>	<u>2,272</u>	<u>3,388</u>	<u>15,518</u>
Gwerth llyfr net							
31 Mawrth 2015	<u>268</u>	<u>3,230</u>	<u>15,096</u>	<u>1,174</u>	<u>4,229</u>	<u>0</u>	<u>23,997</u>
Gwerth llyfr net 31 Mawrth 2014	<u>206</u>	<u>2,863</u>	<u>15,448</u>	<u>1,737</u>	<u>3,499</u>	<u>0</u>	<u>23,753</u>

13 Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen - parhad

- 13.1 Caffaelodd yr UKCC (y corff a ragflaenodd yr NMC) y buddiant lesddaliadol yn 23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ oddi wrth Gyngor Nyrsio Cyffredinol Cymru a Lloegr am ddim cost. Daw'r brydles i ben yn y flwyddyn 2933. Prisiwyd y brydles ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol, gan briswyr allanol Carter Jonas, a nodwyd ei bod yn werth £17,185,000. Dylid nodi bod cyfamod cyfyngol ar y brydles.
- 13.2 Mae categori asedau prosiectau TG yn cynnwys system rheoli achosion Addasrwydd i Ymarfer a gwaith i uwchraddio seilwaith TGCh, a gwblhawyd yn ystod 2009-2010.
- 13.3 Mae cyfarpar yn cynnwys cost seilwaith, caledwedd a meddalwedd TG. Mae'r prif ychwanegiad yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â datblygu llwyfan ar gyfer cynnal prawf cymhwysedd ar gyfer unigolion o'r tu allan i'r AEE sy'n gwneud cais i gofrestru. Ariannwyd hyn drwy grant o £504k gan yr Adran Iechyd, a wariwyd yn llawn yn 2014-2015. Gwerth llyfr net hyn ar 31 Mawrth 2015 oedd £438k. Roedd ychwanegiadau eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys datblygu systemau a gwelliannau mewn perthynas ag ail-ddilysu, gwasanaethau cofrestru ar-lein a'r buddsoddiad mewn cyfarpar yn ein safle wedi'i brydlesu newydd yn 2 Stratford Place.
- 13.4 Mae ychwanegiadau o ran adnewyddu adeiladau Addasrwydd i Ymarfer yn ymwneud â throï safle wedi'i brydlesu newydd yn 2 Stratford Place yn safle gwrandawriadau a swyddfeydd Addasrwydd i Ymarfer ac mae'r gwarediad yn cyfeirio at adael y safle gwrandawriadau yn 20 Old Bailey, pan ddaeth y brydles i ben.

14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r NMC yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Noda Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 natur y gydberthynas rhwng yr NMC a'r Cyfrin Gyngor a'r dulliau adrodd sy'n ofynnol. Er nad yw'n atebol i'r Adran Iechyd, mae'r NMC mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran ynghylch materion polisi a materion eraill.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, talwyd cyfanswm o £48,000 i'r sawl oedd yn dal swydd y Cadeirydd (2013-2014: £48,000).

Yn ystod y flwyddyn, talwyd lwfansau a chostau teithio a chynhaliaeth gwerth £272,000 (2013-2014: £313,000) i aelodau'r Cyngor neu aethpwyd i'r costau hyn mewn perthynas â hwy.

Telir aelodau'r Cyngor yn uniongyrchol drwy gyflogres yr NMC.

Rhoddir manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol o'r Cyngor yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ar dudalennau 23-25.

Gwnaed cronriad o £22,771 (2013-2014: £38,551) ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm ac yswiriant gwladol posibl mewn perthynas â thaliadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth aelodau.

15. Dyledwyr

	2015 £'000	2014 £'000
Dyledwyr eraill	499	167
Rhagdaliadau ac incwm cronodig	1,638	990
	2,137	1,157

16. Credydwyr

	2015 £'000	2014 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Credydwyr eraill a chroniadau	9,630	9,824
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol (gan gynnwys YG y Cyflogwr)	4	454
Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2014-2015	–	39,009
Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2015-2016	41,857	–
	51,491	49,287

17. Darpariaethau

	2015 £'000	2014 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Dadfeiliadau	361	258
Darpariaeth bensiwn - ymddeol yn gynnar ⁴²	67	67
	428	325

18. Credydwyr

	2015 £'000	2014 £'000
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		
Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2015-2016	–	105
Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2016-2017	118	–
Arall	386	–

⁴² Yn ystod 2012-2013 daeth y ddarpariaeth yn y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer ymddeol yn gynnar ar sail analluogrwydd parhaol i rym mewn perthynas â chyflogai. Penderfynwyd ar y swm a oedd yn daladwy gan Actwari'r Cynllun ac fe'i cymeradwywyd gan Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn. Cydnabuwyd y swm llawn o £513k yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn 2012–2013. Gwneir taliadau i'r Cynllun bob mis gan gychwyn ym mis Rhagfyr 2012. Ym mis Mawrth 2015, roedd £357k yn weddill yn y ddarpariaeth ar gyfer blynyddoedd i ddod.

504

105

Mae a wnelo incwm gohiriedig â ffioedd cyfnodol a ragdalwyd, ar gyfer symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

19. Darpariaethau

Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	2015	2014
	£'000	£'000
Dadfeiliadau	427	218
Darpariaeth bensiwn - ymddeol yn gynnar ⁴³	290	357
	717	575

20. Statws elusennol

Ar 27 Mawrth 2002, cofrestrwyd yr NMC ar Gofrestr Ganolog yr Elusennau (rhif elusen 1091434). Yn sgil hyn caniatwyd rhyddhad ardrethi gan Ddinas Westminster. Mae'r statws hwn yn rhoi buddiannau treth hefyd⁴⁴. Ar 18 Mehefin 2007, cofrestrwyd yr NMC â Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif SC038362).

21. Ymrwymadau pensiwn

Mae'r NMC yn gweithredu dau gynllun pensiwn: cynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae'r NMC yn cymryd rhan mewn cynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr ar y cyd â'r Adran Iechyd ac NHS Education for Scotland (cynllun pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig, rhif cofrestru'r cynllun 101652586) a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited. Tynnodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a oedd yn gyfranogwr blaenorol, yn ôl o'r cynllun yn ystod 2013. Mae'r cynllun, yr oedd tua 36 y cant o gyflogeion yr NMC yn aelodau ohono ar 31 Mawrth 2015, yn gynllun buddiannau diffiniedig a ariennir.

Codir cyfraniadau i'r cynllun i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y fath fodd ag i ledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith cyflogeion. Pennir cyfraniadau gan actwari cymwysedig ar sail prisiadau bob tair blynedd.

Cwblhawyd y prisiad diweddaraf o'r cynllun ar ran Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn gan Premier Pensions Management Limited ar 31 Mawrth 2013, gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol o brisio. Ar ddyddiad y prisiad, roedd asedau'r cynllun yn werth £94.9 miliwn (gan gynnwys blwydd-daliadau a ddelir gan bensiynwyr yswiriedig). Roedd gwerth yr asedau yn cyfrif am 86 y cant o werth y buddiannau, a oedd wedi cronni i aelodau ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd disgwylidig mewn enillion a phensiynau yn y dyfodol. Mae'r diffyg asedau mewn perthynas â gwasanaethau yn y gorffennol yn cael ei amortyddio dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad oedd enillion gwirioneddol o fuddsoddiadau uwchlaw cynnydd o 1.05 y cant y flwyddyn mewn cyflogau ac uwchlaw cynnydd o 0.55 y cant a -0.15 y cant y flwyddyn

⁴³ Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, Nodyn 17, troednodyn 42.

⁴⁴ Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, Nodyn 12.

mewn pensiynau ar gyfer y rhai nad ydynt yn bensiynwyr a phensiynwyr, yn y drefn honno.

Pe bai'r cynllun wedi cael ei ddirwyn i ben ar y dyddiad prisio (31 Mawrth 2013), byddai'r asedau wedi cyfrif am tua 69 y cant o'r swm sydd ei angen i brynu contractau yswiriant i fodloni buddiannau cronodig aelodau gweithredol a'r rhai sydd wedi gadael y cynllun a buddiannau cyfredol pensiynwyr. Byddai'r diffyg amcangyfrifedig wedi bod yn £45.3 miliwn.

Mae Cynllun Adfer ar waith i sicrhau y bydd lefel ariannu'r cynllun yn cyrraedd 100 y cant yn seiliedig ar dybiaethau actiwaraid cyfredol, erbyn 31 Mawrth 2023. Bydd yr NMC yn unioni'r diffyg dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023 drwy wneud taliadau o dan y Cynllun Adfer sy'n cyfateb i £983k y flwyddyn, gyda chynnydd o 3.65 y cant bob mis Ebrill (cymhwysir y cynnydd cyntaf o'r fath ym mis Ebrill 2015).

Safon gyfrifyddu, FRS 17: Nid oes unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â chyfran yr NMC o gyfanswm diffyg y cynllun sef £15.4 miliwn ar adeg y prisiad actiwaraid diweddaraf (31 Mawrth 2013) wedi'i chynnwys yn y cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, gan fod y cynllun yn un aml-gyflogwr ac ni all yr NMC nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

O dan yr amgylchiadau hyn, mae FRS 17 yn darparu ar gyfer cyfrif am y cyfraniad i'r cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Fel y cyfryw, bydd y gost a gydnabyddir yn SOFA'r NMC yn cyfateb i'r cyfraniad sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y flwyddyn.

Cyflwynodd yr NMC gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig y gallai staff ymuno ag ef yn wirfoddol o 1 Tachwedd 2013, a weithredir gan The People's Pension. Cyfrannodd yr NMC gyfradd sylfaenol o 4 y cant o gyflog pensiynadwy yn ystod 2014-2015 a chyfradd gyfrannu sylfaenol y cyflogai oedd 1 y cant. Gall cyflogeion wneud cyfraniadau ychwanegol a bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at uchafswm cyfraniad y cyflogwr, sef 12 y cant. Mabwysiadwyd y cynllun hwn fel cynllun awto-gofrestru ar gyfer yr NMC o 1 Ebrill 2014.

Roedd y gost pensiwn a aseswyd ar sail cyngor actiwaraid yn y gorffennol ac a godwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:

	2015	2014
	£'000	£'000
Cyfraniadau'r NMC (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig a wnaed yn ystod y flwyddyn	3,545	3,349
Cyfraniadau'r NMC (cyflogwr) at y cynllun cyfraniadau diffiniedig a wnaed yn ystod y flwyddyn	315	2
	3,860	3,351
Cyfraniad yr NMC (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig	29.2%	27.4%
Cyfraniad cyflogeion at y cynllun buddiannau diffiniedig	6%	6%
Cyfraniad sylfaenol yr NMC (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig	4%	4%

Cyfraniad sylfaenol cyflogeion at y cynllun buddiannau diffiniedig	1%	1%
--	----	----

Mae'r NMC yn talu cost unrhyw gynnydd pensiwn nas ariennir a roddir i bensiynwyr sefydliadau a wnaeth ei ragflaenu nad ydynt yn aelodau o gynllun pensiwn yr NMC. Telir y costau hyn pan fydd achos yn codi ac fe'u codir i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn unol â hynny. Yn 2014–2015 roedd y gwariant hwn yn cyfateb i £27,000 (2013–2014: £26,000).

22. Ymrwymïadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2015, nid oedd unrhyw wariant cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar ei gyfer, nac ychwaith unrhyw wariant cyfalaf y contractiwyd ar ei gyfer ond na ddarparwyd ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol.

23. Cysoni adnoddau (sy'n mynd allan)/sy'n dod i mewn net â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu

	2015 £'000	2014 £'000
Adnoddau (sy'n mynd allan)/sy'n dod i mewn net o weithrediadau	(3,212)	(5,397)
Incwm buddsoddiadau	(641)	(983)
Taliadau dibrisio	3,424	2,900
Colled ar waredu cyfarpar	53	-
Gostyngiad/cynnydd) mewn dyledwyr	(980)	590
Cynnydd mewn credydwyr a darpariaethau	2,848	7,266
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu	<u>1,492</u>	<u>4,376</u>

24. Cysoni llif arian parod net â symudiadau mewn cronfeydd net

	2015 £'000	2014 £'000
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn	(1,588)	2,838
Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2014	78,250	75,412
Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2015	<u>76,662</u>	<u>78,250</u>

25. Dadansoddiad o'r newidiadau mewn cronfeydd net

	1 Ebrill 2014 £'000	Llifau arian parod £'000	31 Mawrth 2015 £'000
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	78,250	(1,588)	76,662
Cyfanswm	<u>78,250</u>	<u>(1,588)</u>	<u>76,662</u>

26. Ymrwymiadau prydlesu

Ar 31 Mawrth 2015, roedd gan yr NMC ymrwymiadau i wneud taliadau yn y flwyddyn ganlynol o dan brydlesau gweithredu nad oedd modd eu canslo fel y nodir isod.

	Tir ac adeiladau		Offer a pheiriannau	
	2015 £'000	2014 £'000	2015 £'000	2014 £'000
Prydlesau gweithredu sy'n dod i ben:				
• O fewn blwyddyn	59	339	3	2
• Yn yr ail i bumed flwyddyn yn cynnwys y blynyddoedd hynny	1,497	1,629	-	-
• Mewn mwy na phum mlynedd	759	113	-	-
Ymrwymiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn	<u>2,315</u>	<u>2,081</u>	<u>3</u>	<u>2</u>

Mae'r NMC yn prydlesu eiddo yn 61 Aldwych, Llundain, ar gyfer y cyfnod hyd at 10 Medi 2019, Clarendon House (llawr daear), 114–116 George Street, Caeredin, ar gyfer y cyfnod hyd at 24 Ebrill 2021, Clarendon House (llawr cyntaf), 114-116 George Street, Caeredin, ar gyfer y cyfnod hyd at 20 Chwefror 2016, 1 Kemble Street, Llundain, ar gyfer y cyfnod hyd at 21 Rhagfyr 2019 ac 2 Stratford Place ar gyfer y cyfnod hyd at 21 Gorffennaf 2024.

27. Symudiad mewn cronfeydd cyfyngedig

	Balans ar 1 Ebrill 2014 £'000	Incwm £'000	Adnoddau a wariwyd £'000	Trosglwyddia- dau £'000	Balans ar 31 Mawrth 2015 £'000
AiY / adfer cronfeydd wrth gefn (i)	12,000	87	(6,944)	-	5,143
Cofrestriadau o dramor – (ii)	-	193	(193)	-	-
Prawf cymhwysedd ar gyfer ymgeiswyr o dramor (iii)	-	2,449	(1,566)	(504)	379
Balans ar 31 Mawrth	<u>12,000</u>	<u>2,729</u>	<u>(8,703)</u>	<u>(504)</u>	<u>5,522</u>

- (i) Bwriedir i'r grant o £20 miliwn a ddarparwyd gan yr Adran Iechyd Gynnyg y sefydlogrwydd ariannol er mwyn cyflawni targed Dangosydd Perfformiad Allweddol y NMC o ran dyfarnu Addasrwydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, cael gwared ar yr ôl-groniad hanesyddol o achosion sy'n ymwneud ag

Addaswydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, a sicrhau'r isafswm lefelau mewn cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg erbyn mis Ionawr 2016. Caiff y grant ei wario mewn rhandaliadau misol cyfartal dros gyfnod y grant, a bydd balans y cronfeydd cyfyngedig yn lleihau yn unol â hynny bob mis, gan ddechrau ym mis Chwefror 2013, gyda'r swm terfynol yn cael ei wario ym mis Rhagfyr 2015.

- (ii) Mae'r grant o £0.193 miliwn yn cynrychioli arian grant ar gyfer 2014-2015 a roddwyd gan yr Adran Iechyd er mwyn helpu i gwblhau'r archwiliad hanesyddol o gofrestrïadau o dramor a gweithredu proses ddilysu manylion personol electronig ar gyfer ymgeiswyr o'r tu allan i'r AEE.
- (iii) Mae'r grant o £2.449 miliwn yn cynrychioli arian ar gyfer 2014-2015 a roddwyd gan yr Adran Iechyd er mwyn helpu i gyflwyno prawf cymhwysedd ar gyfer unigolion o'r tu allan i'r AEE sy'n gwneud cais i gofrestru, y mae £504k ohono wedi'i gyfalafu ac wedi'i drosglwyddo i gronfeydd digyfyngiad wrth gefn (gweler Nodyn 13.3).

28. Datganiad o gronfeydd wrth gefn

	Balans ar 1 Ebrill 2014 £'000	Incwm £'000	Adnoddau a wariwyd £'000	Trosglwyddia -dau £'000	Balans ar 31 Mawrth 2015 £'000
Cronfeydd digyfyngiad	40,868	70,475	(67,713)	504	44,134
Cronfeydd cyfyngedig	12,000	2,729	(8,703)	(504)	5,522
Balans ar 31 Mawrth	52,868	73,204	(76,416)	-	49,656

29. Asedau Net yn ôl cronfa

	Digyfyngiad cyffredinol £'000	Cyfyngedig £'000	Cyfanswm £'000
Asedau sefydlog	23,493	504	23,997
Asedau cyffredol	73,781	5,018	78,799
Rhwymedigaethau cyffredol	(51,919)	-	(51,919)
Rhwymedigaethau hirdymor	(1,221)	-	(1,221)
Balans ar 31 Mawrth 2015	44,134	5,522	49,656

30. Taliadau arbennig

Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig⁴⁵ yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 (ni wnaed unrhyw daliadau arbennig yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014).

⁴⁵ Mae taliadau arbennig yn yr enghraifft hon yn cyfeirio at daliadau diswyddo arbennig a dalwyd i gyflogeion ac eraill sy'n uwch na'r gofynion statudol neu gytundebol arferol pan fyddant yn gadael

cyflogaeth boed hynny pan fyddant yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n dod i gytundeb i derfynu eu contract. Rhaid i daliadau diswyddo arbennig bob amser gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.



The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010

Their Lordships make the following determination in exercise of powers conferred by article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001⁴⁶.

This determination has effect from 23rd February 2010.

Interpretation

1. In this Determination-

“the accounts” means the accounts which it is the Council’s duty to keep and prepare under article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001 in respect of the financial year ending on 31st March 2010 and subsequent financial years;

“the Charities’ SoRP” means the “Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice 2005 prepared by the Charities Commission or any updated edition in force for the relevant financial year.

“the Council” means the Nursing and Midwifery Council;

“the FReM” means the Government Financial Reporting Manual issued by HM Treasury which is in force for the relevant financial year.

Determination

2. The accounts must-

(a) be prepared so as to give a true and fair view of the Council’s state of affairs as at 31st March of the financial year in question and of the incoming resources and application of resources of the Council for that financial year; a

(b) disclose any material incoming or outgoing resources that have not been applied to the purposes intended by Parliament or material transactions that have not conformed to the authorities which govern them.

⁴⁶ O.S. 2002/253

3. Subject to paragraph 4, in order to comply with paragraph 2(a), the accounts must be prepared-

(a) in compliance with the accounting principles and disclosure requirements contained in the Charities' SoRP; a

(b) having regard to the requirements of the FReM to the extent that those requirements clarify, or build on, the requirements of the Charities' SORP.

4. Where the presence of exceptional circumstances means that compliance with the requirements of the Charities SORP or the FReM would give rise to the preparation of accounts which were inconsistent with the requirement in paragraph 2(b), those requirements should be departed from only to the extent necessary to give a true and fair view of that state of affairs.

5. In cases referred to in paragraph 4, informed and unbiased judgement should be used to devise an appropriate alternative treatment which is consistent with both the economic characteristics of the circumstances concerned and the spirit of the Charities' SORP and the FReM.

6. This determination shall be reproduced as an appendix to the published accounts.

Signed by the authority of the Privy Council
Dated: 18th July 2011